

# wavehill™

social and economic research  
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

---

## Gwerthusiad Canol Tymor Rhaglen LEADER yn Ynys Môn: Arloesi Môn

Gorffennaf 2019



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey  
Charitable Trust*



## Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestrdig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: 12 Orchard Street, Bristol, BS1 5EH
- Swyddfa Gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LE
- Swyddfa Llundain: 52 Cecile Park, Crouch End, London, N8 9AS

Manylion cyswllt:

Ffôn: 01545 571711

E-bost: [info@wavehill.com](mailto:info@wavehill.com)

Twitter: @wavehilltweets

Mwy o wybodaeth:

[www.wavehill.com](http://www.wavehill.com)

<https://twitter.com/wavehilltweets>

© Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Mae'r adroddiad hwn yn destun hawlfraint. Dylid cydnabod awduron yr adroddiad (Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd) mewn unrhyw gyfeiriad a wneir at ei gynnwys.

Awduron:

Endaf Griffiths

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn y lle cyntaf at Endaf Griffiths ([endaf.griffiths@wavehill.com](mailto:endaf.griffiths@wavehill.com))

Dyddiad y ddogfen: Gorffennaf 2019

Fersiwn: TERFYNOL

Cyswllt y cleient:

Sioned Morgan Thomas, Uwch Reolwr Gweithrediadau, Menter Môn

[sioned@mentermon.com](mailto:sioned@mentermon.com)

# Cynnwys


Crynodeb gweithredol .....	i
1 Cyflwyniad .....	1
2 Trosolwg cryno o ddull LEADER a'i weithrediad yn Ynys Môn .....	2
3 Adolygiad o'r Strategaeth Datblygu Lleol a Gwariant, Allbynnau a Chanlyniadau hyd yma.....	5
4 Adolygiad o weithrediad dull LEADER hyd yma .....	18
5 Adborth rhanddeiliaid y prosiectau .....	28
6 Casgliadau ac argymhellion .....	32
Atodiad 1: Trosolwg o flaenoriaethau ac amcanion Strategaeth Datblygu Lleol Ynys Môn .....	36
Atodiad 2: Astudiaethau achos prosiectau, wedi'u llunio o ffurflenni terfynu prosiectau .....	39
Atodiad 3: Diffiniadau dangosyddion perfformiad .....	46

# Crynodeb gweithredol

## Cyflwyniad

Dyma adroddiad canol tymor ac interim gwerthusiad o weithrediad y rhaglen LEADER yn Ynys Môn ar gyfer y cyfnod cyllido 2014 i 2020<sup>1</sup>, sy'n dwyn yr enw Arloesi Môn.

Fel menter Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned, proses integredig wedi'i hariannu gan Ewrop yw LEADER a ddyluniwyd i ymgysylltu â chymunedau lleol, eu galluogi, darparu adnoddau ar eu cyfer a'u grymuso, mewn perthynas ag ymgymryd â'u datblygu lleol eu hunain. Mae LEADER yn seiliedig ar nifer o nodweddion penodol y cyfeirir atynt yn aml fel 'dull LEADER', fel a ddarlunnir isod:



Yn Ynys Môn, caiff LEADER ei weithredu gan Grŵp Gweithredu Lleol Arloesi Môn, gyda Menter Môn yn ymgymryd â'r gweithrediadau gweinyddol ac ariannol ar eu rhan (rôl a gaiff ei alw'n 'Gorff Arweiniol'). Cyfanswm gwerth rhaglen LEADER yn Ynys Môn yw £3.3m, a chaiff 76% ei ddyrannu i ariannu prosiectau.

Caiff LEADER ei gydariannu gan yr Undeb Ewropeaidd<sup>2</sup> a'i chyflawni yng Nghymru fel rhan o Raglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru.

<sup>1</sup> Mae'n debygol y bydd yn parhau i gael ei gweithredu tan o leiaf canol 2021.

<sup>2</sup> Caiff y rhaglen ei chyd-ariannu o Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

## Gweithrediad Hyd Yma

Adeg ymgymryd â'r dadansoddi ar gyfer yr adolygiad canol tymor hwn, roedd rhaglen LEADER yn Ynys Môn wedi cynorthwyo 54 o brosiectau gyda mwy na 70% o'r cyllideb gweithredu wedi'i hymrwymo. Mae amrywiaeth sylweddol yng ngwerth prosiectau unigol, yn amrywio o gyn lleied â £1,500 (ar gyfer prosiect hanes digidol sy'n archwilio'r defnydd o dechnoleg i ddenu ymwelwyr i bentrefi mewn ffordd weledol a chreadigol) i gyn gymaint â £33,500 (ar gyfer prosiect peilot o'r enw Chwedlau Lleol i ddatblygu fframwaith ar gyfer cydgrynhoi, digideiddio ac arddangos casgliadau hanesyddol lleol). Gwerth cyfartalog y prosiectau a gynorthwywyd hyd yma yw ychydig dros £11,500, sy'n dangos graddfa cymharol fach, mewn termau ariannol, y prosiectau a weithredir.

## Adolygiad o'r Strategaeth Datblygu Lleol

Caiff Strategaeth Datblygu Lleol a luniwyd ac wedyn ei gyflawni gan y Grŵp Gweithredu Lleol ei disgrifio yng nghanllawiau'r rhaglen a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd fel y canllaw i weithredu LEADER, wrth i'r Grŵp Gweithredu Lleol ddethol a chynorthwyo prosiectau, yn unol â'r cyfraniad a wnânt at nodau'r strategaeth.

Un o ganfyddiadau allweddol adolygiad y Strategaeth Datblygu Lleol a gynhaliwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yw bod y blaenoriaethau a'r amcanion y mae'n eu gosod allan yn eang a phellgyrhaeddol iawn, heb lawer o flaenoriaethu. Y mae dadl bod y dull hwn yn adlewyrchu'r heriau pellgyrhaeddol sy'n wynebu Ynys Môn a'r angen i fwrw'r rhwyd yn eang er mwyn dod o hyd i brosiectau a syniadau newydd ac arloesol. Serch hynny, credwn fod dadl gryfach dros fwy o flaenoriaethu wrth symud ymlaen er mwyn sicrhau y caiff y cyllid sydd ar ôl ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl.

Yr elfen allweddol yn y mater hwn yw bod angen i'r Grŵp Gweithredu Lleol fod yn glir ynghylch beth yw eu hamcan ar gyfer rhaglen LEADER yn Ynys Môn. Arloesi yw un o'r egwyddorion sylfaenol yn LEADER, yn seiliedig ar y ddadl bod gwneud "mwy o'r un peth" yn annhebygol o alluogi ardal i gyflawni ei llawn botensial, ac y dylid edrych am atebion newydd i broblemau presennol. Os mai amcan y Grŵp Gweithredu Lleol yw ariannu syniadau da neu arloesol, waeth beth yw eu tarddiad, gallai ymagwedd eang fod yn briodol. Fodd bynnag, os mai'r amcan yw targedu mwy, a mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd penodol (fel a nodwyd ac a flaenoriaethwyd yn y Strategaeth Datblygu Lleol a luniwyd ganddynt), mwy na thebyg bod angen dull sy'n targedu mwy.

**Argymhelliad 1:** Dylai'r Strategaeth Datblygu Lleol gael ei diweddarau gan ystyried y posibilrwydd o flaenoriaethu mwy dros weddill oes y rhaglen. Dylai'r broses hon gynnwys adolygiad o'r prosiectau a gynorthwywyd hyd yma, wedi'u mapio yn erbyn amcanion y Strategaeth Datblygu Lleol, ac ystyriaeth o'r angen posibl i ymgymryd â gweithgareddau dilynol neu adeiladu ar weithgareddau a gynhaliwyd gan brosiectau a ariannwyd yn flaenorol.

## Dangosyddion Perfformiad

Mae nifer gyfyngedig o ddangosyddion (a thargedau cysylltiedig) yn eu lle er mwyn monitro perfformiad rhaglen LEADER yn Ynys Môn. Mae i ddull o'r fath fanteision o safbwynt gweinyddol. Serch hynny, un o ganlyniadau'r dull hwn yw mai cyfyngedig yw'r data a gesglir ar y graddau y cyflawnwyd y Strategaeth Datblygu Lleol a pherfformiad y rhaglen, yn arbennig ar lefel canlyniadau (canlyniadau yw'r rhan fwyaf o'r dangosyddion, hynny yw gweithgareddau). Mae dadl felly dros gyflwyno dangosyddion ychwanegol a gwnaed rhai awgrymiadau yn yr adroddiad hwn y dylid eu hystyried gan y Grŵp Gweithredu Lleol.

**Argymhelliad 2:** Dylid rhoi ystyriaeth i gyflwyno dangosyddion perfformiad ychwanegol ar gyfer gweithredu'r Strategaeth Datblygu Lleol yn Ynys Môn, gan gynnwys dangosyddion cyffredinol a dangosyddion ar thema sy'n ymwneud â thema neu flaenoriaeth benodol.

Mae'r nifer gyfyngedig o ddangosyddion ar lefel rhaglen hefyd yn golygu bod y rhaglen yn ddibynnol, i raddau helaeth, ar i'r gweithgareddau monitro a gwerthuso gael eu cynnal ar lefel prosiect. Mae'n bwysig iawn, felly, sicrhau bod ansawdd y gwaith monitro a gwerthuso a gaiff ei gynnal ar lefel prosiect yn uchel.

**Argymhelliad 3:** Dylid adolygu'r gweithgareddau monitro a gwerthuso a gynhelir ar lefel prosiect. Ochr yn ochr â hyn, dylid ystyried y potensial i ddarparu gweithdai gwerthuso neu sesiynau hyfforddiant i swyddogion prosiect, gyda'r nod o sicrhau'r gwerth uchaf i'r data a gesglir ar lefel prosiect.

## Y Grŵp Gweithredu Lleol

Mae'n ymddangos bod lefel uchel o ddealltwriaeth o ddull LEADER ar lefel Grŵp Gweithredu Lleol, sy'n amlwg yn beth cadarnhaol, er mai testun rhywfaint o bryder yw'r niferoedd isel sy'n mynd i rai cyfarfodydd. Serch hynny, mae angen cydnabod cymhlethdod cymharol y rhaglen, yn ogystal â'r angen i sicrhau bod aelodau'r Grŵp yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod ganddynt wybodaeth ymarferol dda o'r rhaglen a'r trafodaethau a gynhaliwyd yn ystod cyfarfodydd blaenorol. Yn ychwanegol, roedd pryderon ymysg cyfweleion ynglŷn â dealltwriaeth, neu'n wir ymwybyddiaeth, o LEADER a rôl y Grŵp Gweithredu Lleol ymysg rhanddeiliaid y tu allan i'r Grŵp. Gallai hyn fod yn fater y dymunai'r Grŵp ei archwilio ymhellach ar adeg pan fydd dulliau datblygu gwledig i'r dyfodol yng Nghymru yn cael eu hystyried yng nghyd-destun ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd.

**Argymhelliad 4:** Dylai aelodaeth y Grŵp Gweithredu Lleol gael ei hadolygu'n barhaus i sicrhau bod gan yr aelodau y gallu i ymrwymo'n llawn i'r Grŵp. Lle na all aelodau ymrwymo amser digonol i'r Grŵp, dylid ceisio aelodau yn eu lle.

Nododd aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol amryw ffyrdd yr oeddynt wedi elwa o ganlyniad i ymwneud â'r grŵp. Dyma un o ganlyniadau pwysig dull LEADER, ac mae'r Grŵp Gweithredu Lleol yn elfen allweddol ohono. Dylid archwilio'r potensial i dynnu sylw darpar aelodau newydd at y buddion hyn, ynghyd â'r posibilrwydd o ddatblygu buddion pellach i'r aelodau.

**Argymhelliad 5:** Dylid rhoi ystyriaeth i gyflwyno rhaglen o hyfforddiant i aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol ynglŷn â materion a phynciau sy'n berthnasol i'r Strategaeth Datblygu Lleol a dull LEADER. Er enghraifft, gellid darparu hyfforddiant ar ddatblygu lefelau arloesedd mewn sefydliad. Gallai'r ffaith bod y fath hyfforddiant yn cael ei ddarparu gael ei ddefnyddio wedyn fel ffordd i ddenu aelodau newydd a phresennol i gyfarfodydd.

**Argymhelliad 6:** Dylid cydnabod y rôl allweddol mae aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol yn ei chwarae o ran codi ymwybyddiaeth o raglen LEADER yn Ynys Môn. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r Grŵp rôl bwysig yn y gwaith o fywiocáu'r ardal leol. Dylid archwilio'r potensial i ehangu rôl aelodau'r Grŵp i fod yn 'llysgenhadon' dros LEADER, gan gynnwys cynrychioli'r Grŵp mewn digwyddiadau neu gyfarfodydd, arwain gweithgareddau gyda sectorau penodol, ac ati. Dylai'r aelodau gael eu hannog hefyd i nodi/hyrwyddo eu rôl fel aelodau o'r Grŵp yn eu rhwydweithiau a gweithgareddau presennol. Dylid ystyried y potensial i ddatblygu tudalen ar wefan Arloesi Môn sy'n rhestru manylion cyswllt, ac ati, aelodau'r Grŵp ac yn esbonio'r rôl bwysig sydd ganddi.

**Argymhelliad 7:** Dylai'r Grŵp Gweithredu Lleol asesu p'un a oes bylchau yn ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o'r heriau a'r cyfleoedd yn Ynys Môn (e.e. drwy gynnal archwiliad sgiliau). Yn benodol, dylid archwilio opsiynau i gynnwys pobl ifanc a'r sector preifat yng ngweithgareddau'r Grŵp / LEADER (ill dau wedi'i nodi fel bylchau yn y cyfweiliadau gwerthuso), gan gynnwys sefydlu is-grwpiau i'r prif Grŵp ar gyfer grwpiau (e.e. pobl ifanc) neu sectorau (e.e. y sector preifat) penodol.

### Rôl y Corff Arweiniol

Roedd aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol yn gyffredinol gadarnhaol pan ofynnwyd iddynt wneud sylwadau am y rôl a chwaraeir gan Fenter Môn fel corff arweiniol i'r Grŵp. Mae hyn (yn amlwg) yn ganfyddiad cadarnhaol.

Mae'n bwysig nodi'r dull gweithredu gwahanol sydd yn Ynys Môn (a Gwynedd) o ran cyflawni prosiectau LEADER, wrth i swyddogion prosiect oddi mewn i Fenter Môn gymryd mwy o gyfrifoldeb am weithredu prosiectau o gymharu ag ardaloedd eraill, lle mae'r dull yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth ariannol i sefydliadau allanol i gyflawni prosiectau a ddatblygwyd ganddynt. Mae sawl mantais i'r dull hwn o gymharu â'r hyn a ddefnyddir mewn ardaloedd eraill. Er enghraifft, mae modd dadlau bod y dull yn Ynys Môn yn annog mwy o brosiectau arloesol i gael eu datblygu a'u gweithredu. Serch hynny, caiff llawer llai o'r cyllid sydd ar gael ei ddsbarthu i grwpiau yn yr ardal leol am fod y prosiectau'n cael eu cyflenwi'n 'fewnol' gan Fenter Môn. Yn ychwanegol, mae hyn yn lleihau'r potensial i ddefnyddio'r cyllid i ddatblygu'r gallu i gyflawni prosiectau oddi mewn i'r sefydliadau allanol hynny. Mae angen cydnabod y cryfderau a'r gwendidau hyn.

### Bywiocáu (gwneud i bethau ddigwydd)

Mae bywiocáu yn un o nodweddion allweddol LEADER (yn arbennig elfen 'o'r gwaelod i fyny' y rhaglen) a gall gynnwys amrywiaeth o weithgareddau, megis:

- Gweithio i 'rymuso' pobl a/neu sefydliadau lleol a'u parodrwydd i wynebu heriau neu gyfleoedd lleol drwy ddatblygu a gweithredu prosiectau (yn gysylltiedig â'r Strategaeth Datblygu Lleol);
- (heb fod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Strategaeth Datblygu Lleol na phrosiect penodol) Gweithio'n fwy cyffredinol yn yr ardal leol a chyda'r boblogaeth leol, er enghraifft, i wella ymwybyddiaeth o dreftadaeth leol.

Canfu'r gwerthusiad botensial i aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol ymwneud yn helaethach â chyfeiriad y gweithgareddau a wneir gan dîm LEADER ar eu rhan; dylai'r Grŵp Gweithredu Lleol gymryd mwy o gyfrifoldeb am y gweithgareddau bywiocáu a wneir.

**Argymhelliad 8:** Mae bywiocáu yn elfen allweddol o ddull LEADER. Gan ystyried y diweddariadau i'r Strategaeth Datblygu Lleol, dylai fod mwy o ffocws ar drafod, cyfarwyddo a monitro gweithgareddau bywiocáu ar lefel y Grŵp Gweithredu Lleol.

**Argymhelliad 9:** Er bod ymrwymo cyllid yn amlwg yn bwysig, dylid bod yn ofalus wrth ymrwymo cyllid pellach, er mwyn sicrhau bod adnoddau digonol yn dal i fod ar gael i gyllido syniadau a cheisiadau a gaiff eu hysgogi gan weithgareddau bywiocáu sydd i'w cynnal yn ystod cyfnod nesaf y rhaglen.

### Rhwydweithio a Chydweithredu

Nododd y gwerthusiad y potensial i ddatblygu ymhellach mewn perthynas â lefel y rhwydweithio sy'n digwydd yn Ynys Môn a'r tu allan (yn arbennig ar lefel y Grŵp Gweithredu Lleol a'r prosiectau), yn ogystal â mwy o ymwybyddiaeth o weithgareddau LEADER eraill yng Nghymru (a thu hwnt) ymysg aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol.

**Argymhelliad 10:** Mae rhwydweithio a chydweithredu hefyd ymysg nodweddion allweddol LEADER. Felly dylid archwilio cyfleoedd ac opsiynau mewn perthynas â'r canlynol:

- a) Rhwydweithio mwy, cyfnewid profiadau, a chydweithredu ar lefel prosiectau yn Ynys Môn; gallai gweithgareddau o'r fath cael eu canolbwyntio ar rannu'r gwersi a ddysgwyd a chanfyddiadau prosiectau LEADER a gynhaliwyd.
- b) Cynyddu ymwybyddiaeth aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol o brosiectau LEADER a gynhelir mewn rhannau eraill o Gymru (a ledled yr UE); os yw'n bosibl, dylid hefyd rhannu gwybodaeth am brosiectau a ddatblygwyd ac a gyflawnwyd yng nghyfnodau blaenorol y rhaglen (yn Ynys Môn a'r tu allan).
- c) Datblygu prosiectau cydweithredol pellach, yn arbennig gyda Grwpiau Gweithredu Lleol y tu allan i Gymru a ledled yr UE; dylid archwilio'r rhain cyn gynted â phosibl er mwyn caniatáu digon o amser i'r prosiectau hyn gael eu datblygu a'u gweithredu.



**Argymhelliad 11:** Un o elfennau allweddol unrhyw brosiect peilot yw cipio *a* rhannu unrhyw wersi a ddysgir. Dylid rhoi ystyriaeth i gynhyrchu astudiaethau achos / adroddiadau manwl ar gyfer yr holl brosiectau a gyllidir gan LEADER yn Ynys Môn y dylid eu defnyddio i rannu a lledaenu'r canfyddiadau a'r gwersi a ddysgwyd o bob prosiect. Dylid ystyried hefyd y dull o rannu'r dogfennau hynny'n effeithiol â rhanddeiliaid (lleol a phellach i ffwrdd), e.e. y potensial i gynnal cynadleddau neu weithdai i rannu a thrafod canfyddiadau.

### Y Cam Nesaf

Bydd yr adroddiad gwerthuso terfynol, y bwriedir ei lunio ym mis Ebrill 2021, yn canolbwyntio ar asesu canlyniadau, effaith a gwerth ychwanegol rhaglen LEADER yn Ynys Môn.

# 1 Cyflwyniad

Mae LEADER yn ddull datblygu lleol a ddefnyddiwyd am dros 20 mlynedd i gynnwys cyfranogwyr lleol yn y broses o ddylunio a chyflawni strategaethau, gwneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau ar gyfer datblygu eu hardaloedd gwledig. Hwn yw'r ail o dri adroddiad a gaiff eu cynhyrchu drwy werthuso gweithrediad rhaglen LEADER yn Ynys Môn ar gyfer y cyfnod cyllido 2014 i 2020<sup>3</sup>, a elwir yn Arloesi Môn.

Canolbwyntiai'r adroddiad cyntaf ar gyflwyno dull LEADER, y modd y caiff ei gyflenwi yn Ynys Môn, ac egluro sut y caiff y gwerthusiad ei gynnal. Mae'r adroddiad gwerthuso canol tymor hwn yn asesu cyflawniad y rhaglen yn yr ynys hyd yma, gyda'r bwriad o gyfarwyddo'r gwaith cyflawni dros weddill oes y rhaglen. Rhoddir pwyslais, yn benodol, ar y graddau y mae dull LEADER wedi'i gyflawni yn Ynys Môn. Bydd yr adroddiad gwerthuso terfynol, y bwriedir ei lunio ym mis Ebrill 2021, yn canolbwyntio ar asesu canlyniadau, effaith a gwerth ychwanegol rhaglen LEADER yn Ynys Môn.

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data monitro a gwerthuso a gasglwyd yn ystod cyfnod cyflawni'r rhaglen hyd yma. Roedd y gwaith ymchwil cynradd a wnaed ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys cyfweiliadau ffôn ag 14 aelod o'r Grŵp Gweithredu Lleol yn ogystal â thîm cyflawni'r rhaglen, sydd wedi'u cyflogi ar ran y Grŵp Gweithredu Lleol gan Fenter Môn<sup>4</sup>. Hefyd, roedd prif ymchwilydd y gwerthusiad yn bresennol yng nghyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Lleol ar 14 Chwefror 2019 (er mwyn cyflwyno a thrafod canfyddiadau a ddeuai i'r amlwg yn y gwerthusiad) ac ar 9 Mai 2019 (ar gyfer gweithdy i adolygu strategaeth y Grŵp Gweithredu Lleol). Dosbarthwyd holiadur ar-lein gan dîm Menter Môn i unigolion a oedd yn ymwneud â'r prosiectau, gyda'r bwriad o ganfod eu barn am y prosiectau a sut, os o gwbl, yr oeddynt wedi elwa o ganlyniad i ymwneud â hwy. Yn anffodus, 11 o ymatebion yn unig a dderbyniwyd, a rhai ohonynt yn dangos tuedd; serch hynny, mae'r ymatebion hynny yn cynnig dealltwriaeth o farn rhanddeiliaid a chânt eu trafod yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Mae gweddill yr adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn rhoi trosolwg byr o ddull LEADER a'r modd y caiff ei weithredu yn Ynys Môn
- Mae Pennod 3 yn adolygu'r Strategaeth Datblygu Lleol yn ogystal â gwariant, allbynnau a chanlyniadau'r rhaglen hyd yma
- Ym Mhennod 4 rhoddir ystyriaeth i weithrediad dull LEADER yn Ynys Môn hyd yma
- Mae Pennod 5 yn trafod yr adborth a dderbyniwyd gan randdeiliaid y prosiectau
- Yn olaf, mae Pennod 6 yn cyflwyno casgliadau ac argymhellion yr adroddiad gwerthuso canol tymor hwn.

<sup>3</sup> Mae'r rhaglen yn debygol o barhau i gael ei chyflawni hyd at ddiwedd 2021.

<sup>4</sup> Cwmni nid-er-elw yw Menter Môn sy'n rheoli a chyflawni rhaglenni a phrosiectau datblygu economaidd a chymdeithasol yng Ngogledd-orllewin Cymru: <https://www.mentermon.com/>

## 2 Trosolwg cryno o ddull LEADER a'i weithrediad yn Ynys Môn

### Pwyntiau allweddol

- Caiff LEADER ei gweithredu drwy gymhwyso 'datblygu lleol dan arweiniad y gymuned' ac mae wedi'i hadeiladu ar nifer o nodweddion penodol y cyfeirir atynt yn aml fel dull LEADER.
- Cyfanswm gwerth rhaglen LEADER yn Ynys Môn yw £3.3m, a chaiff 76% ei ddyrannu i gyllido prosiectau.


### 2.1 Cyflwyniad

Er mwyn cyfeirio'n hawdd, ac er mwyn darparu cyd-destun i'r drafodaeth sy'n dilyn, mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg cryno o ddull LEADER a'i weithrediad yn Ynys Môn. I gael disgrifiad manylach o'r dull, gweler Adroddiad 1.

### 2.2 Trosolwg o ddull LEADER

Dull datblygu lleol yw LEADER a ddefnyddiwyd ers dros 20 mlynedd i gynnwys cyfranogwyr lleol yn y gwaith o ddylunio a chyflawni strategaethau, gwneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau ar gyfer datblygu eu hardaloedd gwledig.

Ffigur 2.1: Dull LEADER



Fel menter **Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned**, mae LEADER yn broses ddatblygu integredig a ddyluniwyd i ymgysylltu â chymunedau lleol, eu galluogi, darparu adnoddau ar eu cyfer a'u grymuso er mwyn iddynt ymgymryd â'u datblygiad lleol eu hunain. Mae LEADER yn seiliedig ar nifer o nodweddion penodol y cyfeirir atynt yn aml fel 'dull LEADER', fel sydd i'w weld yn Ffigur 2.1 uchod.

Caiff LEADER ei weithredu gan weithgareddau **Grŵp Gweithredu Lleol**, sy'n cyflawni **Strategaeth Datblygu Lleol** a ddatblygwyd ganddynt a gweithgareddau bywiocáu / meithrin gallu yn y gymuned leol.

Mae **bywiocáu** yn un o nodweddion allweddol LEADER (yn arbennig elfen 'o'r gwaelod i fyny' y rhaglen) a gall gynnwys amrywiaeth o weithgareddau, megis:

- Gweithio i 'rymuso' pobl a/neu sefydliadau lleol a'u parodrwydd i wynebu heriau neu gyfleoedd lleol drwy ddatblygu a gweithredu prosiectau (yn gysylltiedig â'r Strategaeth Datblygu Lleol);
- (heb fod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Strategaeth Datblygu Lleol na phrosiect penodol) Gweithio'n fwy cyffredinol yn yr ardal leol a chyda'r boblogaeth leol, er enghraifft, i wella ymwybyddiaeth o dreftadaeth leol.

**Arloesi** yw un o egwyddorion gwreiddiol a sylfaenol LEADER. Mae'r ffocws ar arloesi'n seiliedig ar y ddadl bod gwneud "mwy o'r u peth" yn annhebygol o alluogi ardal i gyflawni'i llawn botensial, ac y dylid edrych am atebion newydd i broblemau presennol. Yr amcan yw annog a chynorthwyo dulliau ac atebion blaengar ac entrepreneuriaid i fynd i'r afael â materion lleol a rhannu a throsglwyddo profiad o'r fath.


Mae **cydweithredu** hefyd yn un o nodweddion creiddiol LEADER. Gyda Grwpiau Gweithredu Lleol ledled Ewrop, gallai fod cyfoeth sylweddol ym mhrofiad, gwybodaeth a chyfalaf dynol LEADER o ran datblygu lleol, ac mae cydweithredu'n cynnig ffordd i fanteisio ar yr adnodd hwn. Gall Grwpiau Gweithredu Lleol ddefnyddio (neu gyfrannu tuag at) y rhwydwaith hwn er mwyn datblygu'r grŵp, ymgymryd â phrosiectau neu fentrau ar y cyd, arloesi, neu rannu neu drosglwyddo gwybodaeth a phrofiad.

### 2.2.1 Gwerth ychwanegol disgwylidig y dull

Mae disgwyl i ddull LEADER ychwanegu gwerth ar lefel leol drwy'r canlynol:

- (1) **Gweithredu'r Strategaeth Datblygu Lleol** (hynny yw, ei rhoi ar waith ar ffurf prosiectau a'r canlyniadau a'r effeithiau a gynhyrchant);
- (2) **Mecanwaith cyflawni'r Grŵp Gweithredu** (hynny yw, y set o reolau, gweithdrefnau a threfniadau gweinyddol sy'n sicrhau bod amcanion strategol yn dod yn weithredoedd cadarn ar lawr gwlad);
- (3) **Cymorth/bywiocáu i feithrin gallu**: yn ymwneud â'r cymorth a ddarperir er mwyn annog a galluogi'r buddiolwyr (hynny yw, gweithgareddau sy'n ceisio cynyddu ymwybyddiaeth, parodrwydd, cydweithrediad a galluoedd rhwydweithio pobl leol i gyfrannu at ddatblygu eu hardal).

O'i gymhwysu'n gywir, disgwylir i weithrediad dull LEADER arwain at dri grŵp o ganlyniadau, fel sydd i'w weld yn y graffeg isod:



Ffynhonnell y graffeg:  
Canllawiau: Gwerthusiad LEADER / Datblygu  
Lleol dan Arweiniad y Gymuned (2017)  
Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop

## 2.3 Y dull gweithredu yn Ynys Môn

Yn Ynys Môn, mae LEADER yn cael ei weithredu gan Grŵp Gweithredu Lleol Arloesi Môn, ac mae Menter Môn yn ymgymryd â'r gwaith gweinyddol ac ariannol ar eu rhan. Mae'r tîm sy'n cyflawni'r rhaglen yn cael ei gyflogi gan Fenter Môn. Mae ei rôl yn cynnwys gweinyddu'r rhaglen yn ogystal â chyflawni'r gweithgareddau bywiocáu (hynny yw, ymgysylltu â'r gymuned a chymorth i ddatblygu prosiectau). Mae tîm Arloesi Môn yn cynnwys:

- Rheolwr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y rhaglen, gan gynnwys cyllid, arian cyfatebol, allbynnau a chyflenwi staff<sup>5</sup>;
- Tri swyddog thematig sy'n canolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu prosiectau.

Cyfanswm gwerth rhaglen LEADER yn Ynys Môn yw £3.3m, a chaiff 76% ei ddyrannu i ariannu prosiectau.

<sup>5</sup> Mae'n bwysig nodi nad oedd y rheolwr yn y swydd tan fis Ionawr 2019.

## 3 Adolygiad o'r Strategaeth Datblygu Lleol a Gwariant, Allbynnau a Chanlyniadau hyd yma

### Pwyntiau allweddol

- Mae'r Strategaeth Datblygu Lleol yn nodi 29 o amcanion, gan greu strategaeth sy'n eang iawn o ran y materion y bwriada fynd i'r afael â hwy.
- Yn ôl adolygiad o'r prosiectau a gynorthwywyd hyd yma, bu gweithgarwch yn erbyn y rhan fwyaf o'r amcanion penodol yn y strategaeth, er bod achosion lle na fu gweithgarwch yn erbyn amcan.
- Er y gellid ystyried mai peth cadarnhaol yw cynorthwyo amrywiaeth eang o weithgareddau, y mae pryder bod y jam yn cael ei daenu'n denau iawn, gan olygu mai cyfyngedig yw'r potensial i'r buddsoddiad a wneir gyflawni effaith sylweddol (hynny yw, i fynd i'r afael â'r cyfleoedd a'r heriau a nodir).
- Yr allwedd i'r mater hwn yw bod angen i'r Grŵp Gweithredu Lleol fod yn glir ynglŷn â beth yw eu hamcan ar gyfer rhaglen LEADER yn Ynys Môn. Os mai'r amcan yw cyllido syniadau da neu arloesol, waeth beth yw eu tarddiad, mae ymagwedd eang yn briodol. Fodd bynnag, os mai'r amcan yw targedu mwy, a mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd penodol, mwy na thebyg bod angen ymagwedd gulach, wedi'i thargedu mwy.
- Mae amrywiant sylweddol yng ngwerth prosiectau unigol, o gyn lleied â £1,500 (ar gyfer prosiect hanes digidol sy'n ymchwilio i ddefnydd technoleg i ddenu ymwelwyr i bentrefi mewn ffyrdd gweledol a chreadigol) i gyn gymaint â £33,500 (ar gyfer prosiect peilot o'r enw Chwedlau Lleol i ddatblygu fframwaith ar gyfer cydgrynhoi, digideiddio ac arddangos casgliadau hanesyddol lleol).
- Prin (os oes o gwbl) yw'r dystiolaeth o'r hyn mae'r rhaglen yn ei gyflawni go iawn a ddarperir gan ddangosyddion perfformiad ar lefel y rhaglen a gaiff eu casglu er mwyn monitro gweithrediad rhaglen LEADER yn Ynys Môn.
- Mae'n bosibl y gallai amryw ddangosyddion ychwanegol gael eu casglu a fyddai'n rhoi darlun llawnach o'r hyn sy'n cael ei gyflawni.
- Mae 'ffurflenni terfynu prosiectau' yn cynnig crynodeb defnyddiol o weithgareddau a gynhaliwyd a rhai gwersi a ddysgwyd. Serch hynny, cymharol gyfyngedig yw faint o wybodaeth a ddarparant, yn arbennig mewn perthynas â chanlyniad y prosiectau, er bod angen ystyried graddfa fach rhai o'r prosiectau y cwblhawyd ffurflenni ar eu cyfer hyd yma.

## 3.1 Cyflwyniad

Yng nghanllawiau'r rhaglen a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, caiff y Strategaeth Datblygu Lleol ei disgrifio fel map o sut i weithredu LEADER, gyda'r Grŵp Gweithredu Lleol yn dethol a chynorthwyo prosiectau yn unol â'r cyfraniad a wnânt i nodau'r strategaeth<sup>6</sup>.

Mae'r bennod hon yn adolygu'r Strategaeth Datblygu Lleol ar gyfer Ynys Môn a'i gweithrediad hyd yma. Mae'n bwysig nodi nad yw'n ystyried y ffordd y datblygwyd y Strategaeth Datblygu Lleol, sydd y tu hwnt i gylch gwaith y gwerthusiad. Yn hytrach, canolbwyntir ar gydlynid y Strategaeth Datblygu Lleol fel strategaeth i arwain gweithrediad y rhaglen yn Ynys Môn, yn ogystal â'r graddau y mae wedi'i chyflawni drwy'r prosiectau a gynorthwywyd hyd yma. Ymhellach, mae'r bennod hon yn ystyried gwariant, allbynnau a chanlyniadau rhaglen LEADER Ynys Môn hyd yma.

## 3.2 Adolygiad o'r strategaeth

Mae'r adolygiad o bolisi a'r strategaeth oddi mewn i'r Strategaeth Datblygu Lleol ar gyfer Ynys Môn yn gynhwysfawr, ac felly hefyd y dadansoddiad o'r wybodaeth ystadegol allweddol yn yr ynys, er bod gofyn diweddarau'r ddwy adran yn barhaus (diweddarwyd y data ystadegol fel rhan o Adroddiad 1 y gwerthusiad). Mae'r cyd-destun polisi wedi newid yn sylweddol ers ysgrifennu'r Strategaeth Datblygu Lleol yn wreiddiol (y datblygiad amlycaf yw Brexit), ac mae bellach angen i hyn gael ei adlewyrchu yn y Strategaeth Datblygu Lleol.

Mae'r Strategaeth Datblygu Lleol yn nodi pedwar o 'Brif Amcanion' (fel sydd i'w gweld isod) ynghyd â 29 o 'Amcanion Penodol' (sydd wedi'u rhannu'n bum thema ar lefel rhaglen ar gyfer LEADER yng Nghymru) oddi tanynt<sup>7</sup>.

- 1) *Erbyn 2020, mae Ynys Môn yn gwireddu posibilrwydd economaidd newydd gyda mwy o gyfleoedd cyflogaeth gwell ar gyfer ei phobl a ddarperir trwy ddefnyddio deallusrwydd economaidd, mentrau bach cyn eu datblygu, swyddi newydd a sylfaen sgiliau well.*
- 2) *Erbyn 2020, mae pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Ynys Môn wedi'u cysylltu'n well yn ffisegol, yn ddigidol ac yn gymdeithasol ac yn gallu cael mynediad at y mwynderau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt.*
- 3) *Erbyn 2020, mae pobl Ynys Môn yn gwneud mwy o asedau diwylliannol, hanesyddol, hamddenol a naturiol yr ardal er mwyn gwella profiad ymwelwyr, cynyddu eu niferoedd a'u gwariant a sgiliau a chyflogaeth leol mewn twristiaeth.*
- 4) *Erbyn 2020, bydd Ynys Môn a Gwynedd wedi sefydlu TRI gweithgaredd cydweithredol, rhyngdiriaethol ac UN prosiect cydweithredol trawsgenedlaethol sydd, trwy arloesedd, rhwydweithio a chyfnewid gwybodaeth, yn cyfrannu at gwrdd ag amcanion themâu a blaenoriaethau cysylltiedig y Strategaeth.*

<sup>6</sup> Mae'r canllawiau a gynhyrwyd gan Rwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop ar ddatblygiad a gweithrediad y Strategaeth Datblygu Lleol i'w gweld fan hyn: [https://enrd.ec.europa.eu/sites/enrd/files/enrd-guidance\\_lsd.pdf](https://enrd.ec.europa.eu/sites/enrd/files/enrd-guidance_lsd.pdf)

<sup>7</sup> Mae'r amcanion hyn wedi'u dyrannu i mewn i'r themâu ar lefel rhaglen fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad 1.

Mae'r pedwar prif amcan yma'n amlwg yn uchelgeisiol iawn; yn realistig, felly, cyfrannu at eu cyflawni'n unig y gall rôl LEADER fod. Fodd bynnag, nid yw hyn yn anarferol, a phrofiad y tîm gwerthuso yw bod Strategaethau Datblygu Lleol yn aml yn cyflwyno strategaeth ehangach i'r ardal.

Serch hynny, mae naw ar hugain o amcanion penodol yn amlwg yn nifer fawr iawn i'w nodi, ac yn creu strategaeth sy'n eang iawn o ran y materion y mae'n bwriadu mynd i'r afael â hwy. Fel y gellir ei weld yn Atodiad 1, mae'r amcanion hefyd yn benodol *iawn* o ran y materion y maent yn bwriadu mynd i'r afael â hwy, ac fe'u nodwyd er mwyn creu cyswllt uniongyrchol rhwng y Strategaeth a'r anghenion a'r cyfleoedd a nodwyd yn yr ymgynghoriad a'r ymarferiad SWOT. I raddau, mae hyn eisoes wedi'i gydnabod wrth i restr o 10 cwestiwn gael ei llunio yn seiliedig ar yr amcanion hynny, a ddefnyddiwyd mewn deunyddiau er mwyn hyrwyddo rhaglen LEADER yn Ynys Môn. Serch hynny, mae 'ehangder' y strategaeth yn parhau.

Mae angen cydnabod y ffaith i'r strategaeth gael ei pharatoi ar adeg pan oedd natur cyllid LEADER yn aneglur; roedd hyn yn annog y sawl a baratôdd y Strategaeth Datblygu Lleol i gynnig strategaeth amrywiol ac eang iawn gyda phwyslais ar sicrhau na fyddai unrhyw beth y gallech fod eisiau ei wneud yn nes ymlaen wedi'i eithrio. Serch hynny, mae'n anochel bod ei defnyddioldeb fel 'strategaeth' sy'n blaenoriaethu'r heriau a'r cyfleoedd y dylai LEADER ganolbwyntio arnynt wedi'i gyfyngu gan ymagwedd o'r fath.

Ymhellach, nid oes blaenoriaethu yn rhan o'r dadansoddiad SWOT sydd wedi'i gosod allan yn y Strategaeth Datblygu Lleol, er y caiff elfennau penodol o'r dadansoddiad eu nodi yn y 'tabl rhesymeg ymyrryd' atodedig ac maent wedi'u cysylltu ag amcan penodol. Er enghraifft, nid yw'n glir pa rai o'r gwendidau neu'r cyfleoedd a nodir a gaiff eu hystyried yn fwyaf brys neu o'r flaenoriaeth uchaf o ran cyflawni rhaglen LEADER. O safbwynt strategol, mae hyn yn bwysig oherwydd byddai blaenoriaethu'r materion a nodir yn caniatáu dadansoddiad mwy eglur o ba rai o'r amcanion a'r gweithredoedd arfaethedig a nodir sydd fwyaf brys.

### 3.2.1 Barn y cyfweleion

Pwysleisiai'r cyfweleion y gwaith helaeth a wnaed i ddatblygu'r Strategaeth Datblygu Lleol fel rhan o'r broses o ymgeisio i gymryd rhan yn rhaglen LEADER. Serch hynny, yr oedd cydnabyddiaeth bod y strategaeth y mae'n ei gosod yn eang iawn – wedi'i dylunio i fod felly er mwyn caniatáu i amrywiaeth mor eang â phosibl o weithgareddau gael eu gweithredu dros oes y rhaglen. Ymhellach, cafwyd cydnabyddiaeth, er y cyfeiriwyd at flaenoriaethau'r Strategaeth Datblygu Lleol yn ystod trafodaethau ynglŷn â phrosiectau a cheisiadau am gymorth, mai cyfyngedig yw lefel yr arweiniad y mae'n ei darparu i drafodaethau a phenderfyniadau. Fodd bynnag, mynegodd rhai cyfweleion bryder y gallai Strategaeth Datblygu Lleol ag iddi mwy o ffocws (defnyddiwyd y term "cyfyngedig") fod yn rhy rhagnodol, gan bwysleisio'r angen i ganolbwyntio ar weithredu dull 'llawr gwlad' go iawn o ble bynnag y dônt. Ond yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y cyfweleion yn cydnabod bod angen dull mwy strategol wrth symud ymlaen.




Yr elfen allweddol yn y ddadl hon yw bod angen i'r Grŵp Gweithredu Lleol fod yn glir ynglŷn â beth yw eu hamcan ar gyfer rhaglen LEADER yn Ynys Môn. Os mai'r amcan yw cyllido syniadau da neu arloesol, waeth beth yw eu tarddiad, mae ymagwedd eang yn briodol. Fodd bynnag, os mai'r amcan yw targedu mwy, a mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd penodol yn yr ynys, mae angen ymagwedd gulach, wedi'i thargedu mwy.

### 3.3 Yr amrywiaeth o brosiectau a gynorthwywyd hyd yma

Ar adeg cynnal y gwaith dadansoddi ar gyfer yr adolygiad canol tymor hwn, roedd rhaglen LEADER yn Ynys Môn wedi cynorthwyo 54 o brosiectau. Yn ôl adolygiad o'r prosiectau o ran sut maent yn gysylltiedig â'r amcanion penodol a nodir yn y Strategaeth Datblygu Lleol, bu gweithgarwch yn erbyn y rhan fwyaf o'r amcanion penodol, er bod achosion lle na fu gweithgarwch yn erbyn amcan.

**Ffigur 3.1: Dosbarthiad prosiectau a gynorthwywyd yn ôl amcanion penodol y Strategaeth Datblygu Lleol**



*Ffynhonnell: Menter Môn*

Dyma'r pum amcan lle na fu gweithgarwch yn eu herbyn:

- AP14: Cyd-drefnu consortia busnesau lleol i gael cymorth ac ymwneud yn fwy llwyddiannus â gweithdrefnau caffael ffurfiol
- AP17: Gwneud y mwyaf o'r Ddinas Dysg ymhellach i mewn i'w hardaloedd ehangach yn Ynys Môn
- AP18: Gweithredu menter trafndiaeth wledig mewn cymunedau
- AP23: Ymestyn darpariaethau prif ffrwd i'r ardaloedd sydd ym mhellafoedd cefn gwlad ac ardaloedd ucheldir trwy raglennu rhagweithiol, gyda phwyslais ar fusnesau ar y tir
- AP28: Ymestyn darpariaethau prif ffrwd i'r ardaloedd sydd ym mhellafoedd cefn gwlad ac ardaloedd ucheldir trwy raglennu rhagweithiol, gyda phwyslais ar fusnesau ar y tir.

Yr amcan sydd, efallai, yn peri'r syndod mwyaf o'i weld yn y rhestr hon yw'r un yn ymwneud â thrafnidiaeth mewn cymunedau, sy'n fater a nodir yn gyson fel angen allweddol mewn ardaloedd gwledig.

Dyma'r amcanion penodol lle y bu'r gweithgarwch mwyaf yn eu herbyn (10 o brosiectau neu ragor):

- AP1: Sicrhau mwy o werth economaidd lleol i weithredwyr lleol yn sgil Llwybr Arfordir Ynys Môn
- AP3: Peri i farchnadoedd treftadaeth a thwristiaeth cyfredol a newydd chwarae mwy o ran yn ardaloedd mewnol yr ynys a datblygu rhagor ar y cyfryw farchnadoedd
- AP4: Annog busnesau newydd a chyfredol i gymryd mwy o ran mewn marchnadoedd twristiaeth y tu allan i'r tymor a datblygu rhagor ar y cyfryw farchnadoedd drwy gydweithio â chymunedau o ddiddordeb
- AP7: Codi'r defnydd a wneir o'r Gymraeg fel Pwynt Gwerthu Unigryw sydd wedi'i wreiddio yn y rhanbarth, gan osod yr iaith yn ei chyd-destun Ewropeaidd, Celtaidd a lleol drwy ddyfnhau gwerthfawrogiad a gwybodaeth am ei harwyddocâd ehangach mewn treftadaeth Ewropeaidd a dyfalbarhad Celtaidd
- AP22: Ceisio sicrhau bod trigolion yn deall yr agenda carbon, eu rôl a'r rhan y maent yn ei chwarae ynddo, a datblygiad graddol eu perchnogaeth ohono.

Mae'n bwysig pwysleisio y bu ffocws yr adolygiad ar y cam hwn (pan fo mwyafrif y prosiectau yn dal i fod yn weithredol) ar weithgarwch prosiectau yn hytrach na chanlyniadau. Er y bu rhywfaint o ffocws (fel sydd i'w weld uchod), y mae serch hynny'n amlwg y bu'r gweithgarwch yn gymharol wasgaredig, gan adlewyrchu natur eang y Strategaeth Datblygu Lleol.

Y dehongliad cadarnhaol o'r adolygiad hwn yw bod gweithgarwch wedi'i wneud yn erbyn y rhan fwyaf o'r blaenoriaethau a nodir yn y Strategaeth. Fodd bynnag, er y bu'r adolygiad hyd yma yn seiliedig ar yr hyn y mae'r prosiectau'n ei wneud yn hytrach na beth mae'r prosiectau'n ei gyflawni, y pryder fyddai bod y jam yn cael ei daenu'n denau iawn, gan olygu mai cyfyngedig yw'r potensial i'r buddsoddiad a wneir gyflawni effaith sylweddol (hynny yw, i fynd i'r afael â'r cyfleoedd a'r heriau a nodir). Yn wir, nid oes unrhyw fodd i'r amryw brosiectau a gyllidir fynd i'r afael â'r amryw faterion a nodir fel amcanion o dan bob blaenoriaeth. Fodd bynnag, unwaith eto, dylid hefyd nodi'r ffaith bod LEADER yn canolbwyntio ar beilota dulliau newydd ac arloesol o ddatblygu gwledig (yn hytrach na mynd i'r afael â'r heriau neu'r cyfleoedd o anghenraid).

### 3.3.1 Barn y cyfweleion

Cymysg oedd y farn pan ofynnwyd i aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol a'r staff wneud sylwadau ar amrywiaeth y prosiectau a gefnogwyd hyd yma. Roedd ychydig o'r cyfweleion yn pryderu bod gormod o brosiectau 'bach' wedi'u cynorthwyo hyd yma a bod y prosiectau bach hynny wedi creu baich gweinyddol trwm i staff y prosiect yn ogystal â'r Grŵp Gweithredu Lleol wrth drafod a chymeradwyo prosiectau. Roed sylwadau negyddol eraill a wnaed yn cynnwys:

- Pryder ymysg rhai o aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol bod datblygiad prosiectau, mewn rhai achosion, yn cael ei yrru gan swyddogion prosiect yn hytrach na chael eu 'harwain gan y gymuned';
- Diffyg prosiectau o 'ansawdd uchel' yn cael eu cyflwyno i'w hystyried gan y Grŵp Gweithredu Lleol;
- Angen mwy o 'feddwl heb orwelion' ar lefel gymunedol.

Fodd bynnag, gwnaed argraff ar gyfweleion eraill gan amrywiaeth syniadau'r prosiectau a oedd wedi'u hystyried a'u cyllido hyd yma.

Wrth ystyried amrywiaeth y prosiectau a gynorthwywyd a'r math o waith a wneir, mae angen nodi'r cyfyngiadau y mae rheolau cymorth gwladwriaethol a'r angen am arian cyfatebol yn eu rhoi ar weithrediad rhaglen LEADER ar lefel leol. Nid oes modd defnyddio cyllid rhaglen LEADER yng Nghymru i ddarparu cymorth a fyddai'n gymorth gwladwriaethol<sup>8</sup> lle byddai 'busnes', 'menter' neu 'weithredwr economaidd' yn derbyn cymorth o'r fath.

Mae hyn yn golygu na all Grwpiau Gweithredu Lleol ddarparu unrhyw fath o gymorth a fyddai'n lleihau costau rhedeg gweithredol dydd i ddydd: cymorthdalau cyflogau staff neu roi cymorth ariannol (boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) tuag at rent, ardrethi, costau ynni, hyrwyddo, cyhoeddusrwydd, hysbysebu a/neu unrhyw gostau rhedeg neu orbenion eraill. Ymhellach, ni all LEADER yng Nghymru gael ei defnyddio i ddarparu grantiau cyfalaf na refeniw nac unrhyw ffurf arall ar gymorth uniongyrchol nac anuniongyrchol i fusnesau masnachol. Mae'r angen i ganfod arian cyfatebol hefyd yn cyfyngu gallu Grŵp Gweithredu Lleol i ddatblygu a/neu gynorthwyo prosiectau arloesol, oherwydd efallai nad oes gan ffynonellau eraill o arian yr un awydd i gynorthwyo a datblygu prosiectau arloesol (ac felly uwch eu risg).

### 3.4 Gwariant hyd yma

Mae'r tabl isod yn nodi ffigurau gwariant diweddaraf y rhaglen ar adeg llunio'r adroddiad hwn.

Tabl 3.1: Cyllideb Arloesi Môn a faint sydd wedi'i ddyrannu a'i wario ar ddiwedd mis Mawrth 2019<sup>9</sup>

	<b>Cyfanswm</b>	<b>Fel canran o'r gyllideb</b>
<b>Cyllideb</b>	£1,484,469.11	-
<b>Wedi'i ddyrannu</b>	£1,069,512.07	72.0%
<b>Wedi'i wario</b>	£617,465.77	41.6%

*Ffynhonnell: Menter Môn*

Mae dros 70% o'r gyllideb weithredu wedi'i ymrwmo ar bwynt canol oes y rhaglen, ac mae dros 40% wedi'i wario hyd yma. Dyma sefyllfa gymharol iachus i'r rhaglen i fod ynnddi ar y cam

<sup>8</sup> Mae cymorth gwladwriaethol yn golygu unrhyw fantais a roddir gan awdurdodau cyhoeddus drwy adnoddau gwladwriaethol ar sail ddetholus i unrhyw sefydliad a allai aflunio cystadleuaeth a masnach yn yr Undeb Ewropeaidd. I gael mwy o wybodaeth, gweler: <https://www.gov.uk/guidance/state-aid>

<sup>9</sup> Yn cynnwys y gyllideb a ddyrannwyd i gyllido prosiectau cydweithredol.

hwn, gydag arian yn dal i fod ar gael i'w ymrwymo i gyllido prosiectau wrth symud ymlaen yn ogystal â'r ffaith bod cynnydd da wedi'i wneud o ran y swm sydd wedi'i ymrwymo.

Mae amrywiant sylweddol yng ngwerth prosiectau unigol, o gyn lleied â £1,500 (ar gyfer prosiect hanes digidol sy'n ymchwilio i ddefnydd technoleg i ddenu ymwelwyr i bentrefi mewn ffyrdd gweledol a chreadigol) i gyn gymaint â £33,500 (ar gyfer prosiect peilot o'r enw Chwedlau Lleol i ddatblygu fframwaith ar gyfer cydgrynhoi, digideiddio ac arddangos casgliadau hanesyddol lleol). Gwerth cyfartalog y prosiectau a gynorthwywyd hyd yma yw ychydig dros £11,500, sy'n dangos graddfa cymharol fach, yn nhermau ariannol, y prosiectau a weithredir.

### 3.5 Dangosyddion perfformiad ar lefel y rhaglen

Mae'r tabl isod yn dangos y data ar berfformiad rhaglen LEADER yn Ynys Môn yn erbyn y targedau y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru.

Tabl 3.2: Dangosyddion perfformiad rhaglen LEADER yn Ynys Môn (yn gyffredinol) ar ddiwedd mis Mawrth 2019

<i>Dangosydd perfformiad</i> <sup>10</sup> ↓	Targed	Hawliwyd	% o'r targed a hawliwyd
Nifer yr astudiaethau dichonoldeb	8	8	100%
Nifer y rhwydweithiau a sefydlwyd	14	1	7%
Nifer y gweithgareddau peilot a gynhaliwyd/gynorthwywyd	51	5	10%
Nifer yr hybiau cymunedol	11	0	0%
Nifer y swyddi a ddiogelwyd	5	1	20%
Nifer y gweithredoedd/hyrwyddiadau lledaenu gwybodaeth	95	40	42%
Nifer y rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy	160	336	210%
Nifer y cyfranogwyr	144	241	167%

*Ffynhonnell: Menter Môn*

Mae'r rhaglen eisoes wedi cyflawni ei tharged o ran nifer yr astudiaethau achos, yn ogystal â gorgyflawni'n sylweddol mewn perthynas â nifer y rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy a nifer y cyfranogwyr. Mae'r gorgyflawni (ran o'r ffordd drwy oes y rhaglen) yn achos y ddau ddangosydd olaf naill ai'n awgrymu y gosodwyd y targedau hynny'n rhy isel yn y man cyntaf, neu bod y perfformiad yn llawer mwy effeithiol na'r disgwyl. Mwy na thebyg bod yma gyfuniad o'r ddau reswm.

<sup>10</sup> Mae diffiniadau o'r dangosyddion i'w gweld yn Atodiad 3.

Mae'n bwysig nodi fan hyn nad yw amrywiaeth a lefelau'r targedau a osodwyd yn sylweddol ar gyfer rhaglen gwerth £3.3m. Mae hyn yn unol â newid ymagwedd Llywodraeth Cymru at raglen bresennol LEADER mewn ymateb i feirniadaeth o'r rhaglen flaenorol, a oedd yn cynnwys rhestr lawer hirach o ddangosyddion perfformiad, a arweiniodd at broses fonitro gymhleth iawn. Serch hynny, mae'r nifer llawer mwy cyfyngedig o ddangosyddion (y mwyafrif ohonynt yn allbynnau<sup>11</sup>) yn golygu mai cyfyngedig yw'r data sydd ar gael i farnu llwyddiant y rhaglen ar sail y dangosyddion perfformiad hyn yn unig. Mae hyn yn cynyddu dibyniaeth y gwerthusiad ar ddata a gesglir gan brosiectau unigol, fel a drafodir yn nes ymlaen yn y bennod hon.

Ymhellach, perthnasol yw nodi bod y dangosyddion perfformiad a drafodir uchod yn cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen i Ynys Môn yn gyfan. Ni chaiff y dangosyddion perfformiad eu hadrodd fesul amcan y Strategaeth Datblygu Lleol, sy'n golygu nad oes modd eu defnyddio i asesu cynnydd yn erbyn yr amcanion penodol hynny.

O adolygu'r targedau, gwelir mai cyfyngedig yw'r cydberthyniad rhwng y dangosyddion perfformiad (a ddylai fod yn rhagweld canlyniadau'r rhaglen) a'r amcanion a osodwyd yn y Strategaeth Datblygu Lleol. Yn benodol, ni fyddai'r cyflawniadau a ddisgwylir yn y dangosyddion perfformiad yn caniatáu i'r amcanion, fel y maent wedi'u gosod yn y Strategaeth Datblygu Lleol, gael eu cyflawni. Mae pa mor ddefnyddiol ydynt fel dangosyddion perfformiad ar gyfer y Strategaeth Datblygu Lleol felly, unwaith eto, yn gyfyngedig. Ac mae'r wybodaeth y gall y prosiect ei darparu felly, unwaith eto, yn bwysig iawn.

### 3.6 Cyflawniadau ar lefel prosiect a adroddwyd hyd yma

Caiff ffurflen gais ei llenwi gan bob prosiect pan gaiff ei derfynu. Mae'r ffurflenni hyn yn gofyn am amrywiaeth o wybodaeth, gan gynnwys:

- Beth wnaeth y prosiect ei ddangos ac a oedd y cyflawniadau'n gyson â nodau'r prosiect?
- Beth weithiodd yn dda a beth oedd heb weithio'n dda?
- Yr allbynnau a gyflawnwyd
- Manylion unrhyw werthusiadau a gynhaliwyd o'r prosiect.

Roedd deg o ffurflenni gwerthuso prosiect ar gael i'w hadolygu adeg llunio'r adroddiad hwn, a cheir crynodeb o bob un yn Atodiad 2. Canolbwyntiai nifer o'r prosiectau hynny ar atebion i annog twristiaeth yn yr ynys ac roedd llawer yn archwilio'r potensial i ddarparu atebion digidol. Archwiliwyd dulliau tebyg gan wahanol brosiectau mewn cyd-destunau ychydig yn wahanol (e.e. edrychai Pentrefi Digidol a Mwclis Ddigidol Llangristiolus ar atebion technoleg ddigidol i annog twristiaeth yn eu hardaloedd). Astudiaethau dichonoldeb oedd llawer o'r prosiectau a gwblhawyd hyd yma, a ddarparai argymhellion o ffyrdd i fwrw ymlaen â'r prosiectau. Serch hynny, er i rai prosiectau gyfeirio at drafodaethau cychwynnol ynglŷn â bwrw ymlaen â'u prosiect, roedd astudiaethau eraill yn fwy o lasbrint a allai fod yn ffynhonnell i gyfeirio ati pe byddai grŵp yn dymuno bwrw ymlaen â syniadau tebyg yn y dyfodol; mae pen draw i faint o wybodaeth y gellir yn rhesymol ddisgwyl ei chasglu ar gyfer prosiectau ar raddfa fach.

---

<sup>11</sup> Gan ddarlunio lefel y gweithgarwch a wneir yn hytrach na chanlyniadau'r gweithgarwch.

Mae'r ffurflenni terfynu prosiectau yn darparu crynodeb ddefnyddiol o'r prosiectau dan sylw. Serch hynny, cymharol gyfyngedig yw'r wybodaeth a ddarparant ar ganlyniad y prosiectau dan sylw ac unrhyw wersi a ddysgwyd wrth eu datblygu a'u cyflawni, er bod, yn amlwg, angen ystyried natur fach y prosiectau y llenwyd ffurflenni ar eu cyfer hyd yma; mae pen draw i faint o wybodaeth y gellir yn rhesymol ddisgwyl i brosiectau ar raddfa fach ei darparu. Serch hynny, o ystyried mai prin iawn yw'r dystiolaeth y bydd data monitro yn ei darparu mewn perthynas â'r hyn mae'r rhaglen wedi'i gyflawni, mae'n bwysig sicrhau, lle bynnag y bo modd, y caiff gwybodaeth o ansawdd uchel ei darparu ar gyfer prosiectau drwy'r ffurflenni terfynu. Fel prosiectau arloesol a pheilot, dylai fod pwyslais cryf hefyd ar ddadansoddi'r gwersi a ddysgwyd wrth reoli a chyflawni'r prosiectau, sy'n fater a drafodir ymhellach yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

### 3.7 Dangosyddion perfformiad pellach posibl

Fel a nodwyd yn flaenorol yn y bennod hon, mae'r dangosyddion perfformiad allweddol sydd yn eu lle ar gyfer raglen LEADER (fel a osodwyd gan Lywodraeth Cymru) yn canolbwyntio ar allbynnau (gweithgarwch) ac yn gymharol gul. Ystyriodd y gwerthusiad, felly, y potensial i gyflwyno dangosyddion ychwanegol er mwyn darparu data pellach ar berfformiad y rhaglen yn Ynys Môn.

Gofynnwyd i aelodau a staff y Grŵp Gweithredu Lleol yn ystod cyfweiliadau ac mewn gweithdy gyda'r Grŵp Gweithredu Lleol wneud sylwadau am sut y dylid mesur llwyddiant rhaglen LEADER yn Ynys Môn. Gofynnwyd yr un cwestiwn mewn ardaloedd eraill lle mae Wavehill yn gwerthuso rhaglen LEADER; mae'r awgrymiadau a wnaed yn cynnwys:

- Gwneud defnydd llawn o'r cyllid sydd ar gael
- Ysgogi syniadau newydd ac arloesol ("creu sbarc")
- Canlyniadau 'meddal' sy'n meithrin gallu megis hyder a pharodrwydd i weithredu
- Cynaliadwyedd prosiectau a gynorthwyr gan LEADER (eu bodolaeth ar ôl i gyllid LEADER ddod i ben)
- Rhannu syniadau/cysyniadau a ddatblygwyd drwy LEADER a'u hailadrodd mewn prosiectau/gweithgareddau eraill.

Fel a nodwyd yn flaenorol, her allweddol i werthuso rhaglen fel LEADER yw y gall y prosiectau a'r gweithgareddau a gyllidir amrywio'n sylweddol. Mae hyn yn golygu mai heriol yw datblygu set o ddangosyddion cyffredin y gellir eu defnyddio ar draws yr holl brosiectau, yn arbennig mewn perthynas â chipio canlyniadau gweithgareddau. Serch hynny, mae dangosyddion generig posibl y gellid eu defnyddio yn cynnwys:

- Nifer y sefydliadau sy'n gwneud cais am gyllid i gyflawni prosiect am y tro cyntaf
- Nifer y sefydliadau newydd hynny sy'n datblygu cynigion am brosiectau eraill neu ddilynlol (hynny yw, parhau i ymwneud ag adfywio)
- Nifer (neu ganran) y cyfranogwyr/rhanddeiliaid sy'n dweud iddynt elwa o ganlyniad i ymwneud â'r prosiect a gyllidwyd gan LEADER

- Nifer (neu ganran) y cyfranogwyr/rhanddeiliaid sy'n dweud eu bod yn fwy tebygol o ymwneud neu barhau i ymwneud â gweithgarwch yn eu cymuned leol o ganlyniad i ymwneud â rhaglen LEADER.

Prif wendid y dangosyddion hyn yw nad ydynt yn dweud dim wrthych am natur y budd, dim ond bod budd wedi bod. Serch hynny, gallai fod awgrym o'r fath yn ddigon, gyda mwy o ddata a dadansoddi manwl yn cael ei ddarparu ar lefel prosiect.

Y thema fwyaf cyffredin mewn trafodaethau ag aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol mewn perthynas â'r mater hwn oedd gwaddol y prosiectau, hynny yw a ydynt yn parhau neu'n esblygu wedi i'r cyllid a ddarparwyd gan raglen LEADER ddod i ben. Roedd llawer yn ystyried efallai mai hyn oedd dangosydd allweddol llwyddiant LEADER, ac yn amlwg mae'n gyson ag amcan creiddiol LEADER o ran bod yn fecanwaith i beilota dulliau newydd ac arloesol o ddatblygu gwledig.

Er ei bod yn bwysig derbyn na fydd pob prosiect yn llwyddo (rhan allweddol o unrhyw ymyriad i gynorthwyo gweithgareddau newydd ac arloesol), mae rhesymeg dangosyddion mewn perthynas â gwaddol rhaglen LEADER yn glir. Mae'r dangosyddion posibl yn cynnwys:

- Nifer y prosiectau sy'n dal i fod yn weithredol 12 mis ar ôl i gyllid LEADER ddod i ben
- Faint o gyllid ychwanegol a ddenir i'r ardal gan y prosiect.

Mae rhannu a dysgu hefyd yn elfen allweddol o raglen LEADER. Gallai fod yn werthfawr, felly, cipio dangosyddion gweithgareddau yn ymwneud â phroses o'r fath fel rhan o ddangosyddion 'gwaddol', er enghraifft:

- Nifer yr astudiaethau achos a gynhyrchwyd a sawl gwaith y maent wedi'u lawrlwytho o wefan y rhaglen
- Cyfranogwyr gweithgareddau i rannu'r hyn a ddysgant o raglen LEADER (unigolion a/neu sefydliadau).

Fel a drafodwyd yn Adroddiad 1, mae Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin yn elfen bwysig o System Fonitoro a Gwerthuso Gyffredin yr UE; mae rhaglen LEADER yn rhan o'r system hon a phriodol yw eu hystyried fan hyn. Mae gofyn i Grwpiau Gweithredu Lleol adrodd yn erbyn y Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin sy'n berthnasol i'r Meysydd Ffocws y mae eu gweithgareddau yn gydnaws â hwy. Yng Nghymru, dylai'r Grwpiau Gweithredu Lleol fynd i'r afael â'r Cwestiwn Gwerthuso Cyffredin sy'n ymwneud â Maes Ffocws 6B: *'I ba raddau mae ymyriad y Cynllun Datblygu Gwledig wedi cyfrannu at feithrin datblygu gwledig mewn ardaloedd gwledig?'* Mae'r meini prawf dyfarnu sydd wedi'u nodi ar gyfer y cwestiwn hwn i'w gweld yn y tabl isod.



**Tabl 3.3: Meini prawf dyfarnu a dangosyddion ar gyfer Maes Ffocws 6B: meithrin datblygu lleol mewn ardaloedd gwledig**

Meini prawf dyfarnu	Dangosyddion
<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Mae gwasanaethau a seilwaith lleol mewn ardaloedd gwledig wedi gwella</li> <li>2. Mae mynediad i wasanaethau a seilwaith lleol wedi cynyddu mewn ardaloedd gwledig</li> <li>3. Mae pobl wledig wedi cyfranogi mewn gweithredu lleol</li> <li>4. Mae pobl wledig wedi elwa o weithredu lleol</li> <li>5. Crëwyd cyfleoedd cyflogaeth drwy strategaethau datblygu lleol</li> <li>6. Mae'r diriogaeth a'r boblogaeth wledig sydd wedi'u cwmpasu gan Grwpiau Gweithredu Lleol wedi cynyddu</li> </ol>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• % o'r boblogaeth wledig sydd wedi'i chwmpasu gan strategaethau datblygu lleol</li> <li>• Swyddi a grëwyd mewn prosiectau a gynorthwywyd</li> <li>• % y boblogaeth wledig sy'n elwa o well gwasanaethau/seilwaith</li> </ul> <p><i>Gwybodaeth ychwanegol:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nifer y prosiectau/mentrau a gefnogir gan y Strategaeth Datblygu Gwledig</li> <li>• % o wariant y Cynllun Datblygu Gwledig ym mesurau LEADER mewn perthynas â chyfanswm gwariant y Cynllun Datblygu Gwledig</li> </ul>

Gwerth cymharol gyfyngedig sydd i'r dangosyddion a nodwyd ar gyfer Maes Ffocws 6B ar lefel leol o ran asesu canlyniadau'r rhaglen. Fodd bynnag, mae llawer o'r dangosyddion a awgrymir uchod yn berthnasol i'r meini prawf dyfarnu a nodir, gan ategu ymhellach y potensial sydd i'w cyflwyno. Serch hynny, mae angen nodi unwaith yn rhagor fan hyn y cyfyngiadau a grëir gan gyfyngiad cymorth gwladwriaethol ar y rhaglen yng Nghymru mewn perthynas â'r potensial i gyflawni canlyniad y 'swyddi a grëwyd'.

Ymhellach, mae'n bwysig ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth ystyried dangosyddion perfformiad ar lefel rhaglen ar gyfer cynlluniau yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi deddfwriaeth yn ei lle sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru roi ystyriaeth flaenllaw i gynaliadwyedd hirdymor, a gweithio gyda'i gilydd (yn ogystal â chyda sefydliadau perthnasol eraill (megis grwpiau trydydd sector)) er mwyn atal problemau a mynd i'r afael â hwy<sup>12</sup>. Mae saith o 'nodau llesiant' wedi'u gosod a rhoddwyd 46 o 'ddangosyddion cenedlaethol' yn eu lle er mwyn gallu mesur cynnydd tuag at y nodau hyn.

Mae'r rhestr yn rhy hir i'w chynnwys fan hyn<sup>13</sup> ond gallai nifer o'r dangosyddion fod yn berthnasol i raglen LEADER. Serch hynny, mae'r dangosyddion hyn (fel sydd i'w disgwyl gan ddangosyddion ar lefel genedlaethol) yn rhai lefel uchel iawn a hirdymor. Heriol â dweud y lleiaf, felly, fyddai priodoli unrhyw newidiadau yn y dangosyddion hyn i raglen LEADER. Fodd bynnag, bydd yn bwysig bod yn ymwybodol o'r dangosyddion lefel uchel hyn a'u hystyried wrth adolygu'r Strategaeth Datblygu Lleol.

<sup>12</sup> Mae mwy o wybodaeth am y Ddeddf i'w gweld fan hyn: <https://futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/>

<sup>13</sup> Mae'r rhestr lawn i'w gweld yn y ddogfen ganlynol: <https://gov.wales/docs/desh/publications/160316-national-indicators-to-be-laid-before-nafw-en.pdf>

Ar sail yr adolygiad yn yr adran hon, hoffem gynnig y caiff ystyriaeth ei rhoi i gyflwyno o leiaf y dangosyddion a nodir isod:

- a) Nifer y sefydliadau sy'n gwneud cais am gyllid i gyflawni prosiect am y tro cyntaf
- b) Nifer y sefydliadau newydd hynny sy'n datblygu cynigion am brosiectau eraill neu ddilynol (hynny yw, parhau i ymwneud ag adfywio)
- c) Nifer (neu ganran) y cyfranogwyr/rhanddeiliaid sy'n dweud eu bod yn fwy tebygol o ymwneud neu barhau i ymwneud â gweithgarwch yn eu cymuned leol o ganlyniad i ymwneud â rhaglen LEADER
- ch) Nifer y prosiectau sy'n dal i fod yn weithredol 12 mis ar ôl i gyllid LEADER ddod i ben
- d) Faint o gyllid ychwanegol a ddenir i Ynys Môn gan y prosiect
- dd) Cyfranogwyr gweithgareddau i rannu'r hyn a ddysgant o raglen LEADER (unigolion a/neu sefydliadau).

Mae'r dangosyddion hyn yn rhai generig ac nid ydynt yn ymwneud yn benodol ag unrhyw rai o'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Strategaeth Datblygu Lleol. Ar sail yr adolygiad o'r Strategaeth Datblygu Lleol a drafodwyd yn flaenorol, dylid ystyried hefyd y potensial i gyflwyno dangosyddion ychwanegol sy'n ymwneud â blaenoriaethau penodol.

## 4 Adolygiad o weithrediad dull LEADER hyd yma

### Pwyntiau allweddol

- Mae'r lefelau presenoldeb isel yn rhai o gyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Lleol yn destun rhywfaint o bryder.
- Roedd barn gyffredinol y cyfweleion am berfformiad y Grŵp Gweithredu Lleol yn gadarnhaol iawn, a dwedwyd yn aml bod y Grŵp Gweithredu Lleol yn 'gweithio'n effeithiol'.
- Roedd pryder bod ymwybyddiaeth o'r Grŵp Gweithredu Lleol a'r hyn a wna (yn ogystal â LEADER yn fwy cyffredinol) y tu hwnt i'r rhai sy'n ymwneud ag ef yn uniongyrchol mwy na thebyg yn gyfyngedig. Gallai hyn olygu bod diffyg dealltwriaeth o werth y grŵp a'r rôl a chwaraea.
- Nododd aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol amrywiaeth o ffyrdd y maent yn elwa o ganlyniad i ymwneud â'r grŵp; dyma ganlyniad pwysig i ddull LEADER.
- Roedd aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol yn gyffredinol gadarnhaol pan ofynnwyd iddynt wneud sylwadau am y rôl mae Menter Môn yn ei chwarae fel y corff arweiniol i'r Grŵp.
- Mae'r dull gweithredu ym Môn (fel yng Ngwynedd) yn wahanol i'r hyn a ddefnyddir mewn ardaloedd eraill o ran cyflawni prosiectau LEADER, wrth i swyddogion prosiect fod â rôl llawer amlycach. Mae i'r dull hwn nid yn unig nifer o fanteision, ond hefyd anfanteision sydd angen eu cydnabod.
- Er i rai cyfweleion fynegi rhywfaint o siom ac awydd (neu obaith) am lefel uwch o arloesi yn y ceisiadau am gymorth a gyflwynir, y farn gyffredinol oedd y bu lefelau rhesymol o arloesi yn y prosiectau a gynorthwywyd hyd yma.
- Cyfyngedig fu'r gweithgareddau rhwydweithio a chydweithredu hyd yma, ill dau'n nodweddion allweddol o ddull LEADER.

### 4.1 Cyflwyniad


Mae'r bennod hon yn adolygu gweithrediad LEADER yn Ynys Môn hyd yma fel rhan o raglen Arloesi Môn, ar wahân i'r Strategaeth Datblygu Lleol sydd wedi'i thrafod eisoes yn y bennod flaenorol. Mae'r drafodaeth yn edrych ar ddata o weithgareddau a gynhaliwyd hyd yma, trafodaethau ag aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol a'r staff, yn ogystal â'r nifer fach o ymatebion a gafwyd gan rai sy'n ymwneud â phrosiectau i'r arolwg ar-lein a ddosbarthwyd drwy Menter Môn.

## 4.2 Y Grŵp Gweithredu Lleol

Mae'r Grŵp Gweithredu Lleol yn rhan allweddol o ddull LEADER, wedi'i ddylunio i fod yn grŵp sy'n cynrychioli'r ardal leol a'i phoblogaeth. Mae'n arwain y broses ddatblygiadol, heb fod gan grŵp buddiant nac awdurdodau cyhoeddus fwyafrif yn y broses o wneud penderfyniadau.

### 4.2.1 Nifer y cyfarfodydd a phresenoldeb

**Ffigur 4.1: Cyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Lleol a phresenoldeb**



*Ffynhonnell: dadansoddiad o ddata a ddarparwyd gan Fenter Môn*

Mae'r tabl yn dangos nifer aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol a oedd yn bresennol mewn cyfarfodydd rhwng mis Mawrth 2015 a mis Rhagfyr 2018, gyda 15 o gyfarfodydd wedi'u cynnal (un cyfarfod bob tri mis ar gyfartaledd). Ar gyfartaledd roedd 8 aelod yn bresennol yn y cyfarfodydd (gyda mwyafswm o 12 ym mis Mawrth 2017 ac isafswm o 4 yn unig ym mis Ebrill 2016). Ni fu'r presenoldeb yn uchel yng nghyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Lleol, felly; yn wir, ni chyrhaeddwyd y cworwm yn saith o'r 15 cyfarfod, sydd yn peri rhywfaint o bryder.

Dwedir bod 26 o bobl wedi mynd i o leiaf un o gyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Lleol dros y cyfnod hwn, gyda'r unigolion hyn, ar gyfartaledd, yn mynd i 4.6 yn unig o'r 15 o gyfarfodydd. Mae un aelod (Cadeirydd y grŵp) wedi bod i bob cyfarfod; dyma'r unig aelod i fod yn bresennol mewn mwy na 10 o'r cyfarfodydd. Ymhellach, y mae'n un o bum aelod yn unig a fu'n bresennol mewn mwy na phum cyfarfod. Unwaith yn rhagor, mae'r ffigurau hyn yn peri rhywfaint o bryder.

## 4.2.2 Barn am berfformiad y Grŵp Gweithredu Lleol

Roedd barn gyffredinol y cyfweleion am berfformiad y Grŵp Gweithredu Lleol yn gadarnhaol iawn, a dwedwyd yn aml bod y Grŵp Gweithredu Lleol yn 'gweithio'n effeithiol'.

Yn ystod y cyfweiliadau â staff ac aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol, cafwyd cydnabyddiaeth o gymhlethdod cymharol rhaglen LEADER (o gymharu â chynllun grant mwy safonol), a phwysleisiwyd bod angen briffio effeithiol os, a phan, y caiff aelodau newydd eu recriwtio i'r Grŵp (fel y bu'r achos). Ymhellach, nodwyd bod y dryswch a achoswyd gan ddull gwahanol LEADER ar gyfer y cylch cyllido hwn (lle na bu grantiau ar gael, a fu'n nodwedd allweddol o gylchoedd blaenorol y rhaglen) yn ffactor a achosodd rywffaint o ddryswch, a bod rhai rhanddeiliaid yn dal i ddisgwyl yr un cymorth ag a fu ar gael yn flaenorol.

Roedd rhywfaint o bryder hefyd ymysg y cyfweleion wrth drafod eu canfyddiad o'r ddealltwriaeth o rôl y Grŵp Gweithredu Lleol (ac yn wir, rhaglen LEADER yn fwy cyffredinol) ymysg y rhai nad oedd yn ymwneud yn uniongyrchol a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol. Credai mwyafrif yr ymatebwyr fod grŵp craidd o unigolion a sefydliadau a oedd yn ymwybodol o'r rhaglen a'i hamcanion ond bod ymwybyddiaeth y tu hwnt i'r grŵp hwnnw mwy na thebyg yn gyfyngedig, a oedd yn destun pryder i rai.

Roedd y farn am gyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Lleol yn gyffredinol gadarnhaol, heb i unrhyw faterion sylweddol gael eu nodi ar wahân i lefel bresenoldeb isel rhai aelodau, fel a drafodwyd isod. Nodwyd y rôl bwysig a chwaraeir gan Gadeirydd y Grŵp mewn perthynas â rheoli cyfarfodydd. Barn glir y cyfweleion oedd y rhoddwyd cyfle i holl aelodau'r Grŵp wneud sylwadau ar geisiadau (ac yn fwy cyffredinol) yn ystod y broses asesu, er y nodwyd bod rhai aelodau'n gwneud mwy o sylwadau nag eraill (nad yw'n anarferol).

Roedd yr aelodau hynny o'r Grŵp Gweithredu Lleol a gyfwelwyd yn hapus ynghylch faint o wybodaeth a ddarparwyd iddynt ynglŷn â cheisiadau, gwariant ac ati, ac yn gyffredinol roeddynt yn canmol y ffordd y gweinyddwyd y cyfarfodydd gan Fenter Môn. Gan symud ymlaen, fodd bynnag, roedd awydd i dderbyn adborth a gwybodaeth bellach ar y cynnydd a wnaed gan brosiectau a gynorthwywyd er mwyn cyfarwyddo unrhyw drafodaethau ynglŷn â blaenoriaethau dros weddill oes y rhaglen.

Nodwyd y rôl bwysig y mae is-grwpiau'r Grŵp Gweithredu Lleol yn ei chwarae, a phwysleisiwyd eu rôl fel cyfle i archwilio'r ceisiadau am gymorth yn llawn. Fodd bynnag, nodwyd hefyd bod angen ceisio sicrhau nad yw'r trafodaethau yn cael eu dyblygu ym mhrif gyfarfod y Grŵp. Nodwyd bod nifer yr is-grwpiau wedi newid dros oes y prosiect, a bod dull thematig yn ei le yn wreiddiol, yn unol â themâu rhaglen LEADER yng Nghymru. Yn ddiweddarach, symleiddwyd y dull hwn er mwyn lleihau'r baich gweinyddol a'r galw ar amser unigolion allweddol, ac ystyriwyd y bu hyn yn gam cadarnhaol.

Unwaith eto, pwysleisiwyd yr heriau sydd i sicrhau bod pawb yn bresennol yn y cyfarfodydd yn ystod trafodaethau ynglŷn ag aelodaeth y Grŵp Gweithredu Lleol. Roedd y bylchau a nodwyd yn yr aelodaeth yn cynnwys ‘pobl ifanc’ a’r ‘sector preifat’, sydd (ym mhrofiad yr awdur) yn grwpiau a nodir yn aml gan Grwpiau Gweithredu Lleol sy’n heriol i’w cynnwys mewn grŵp o’r natur hwn.

Mae’r ‘bylchau’ eraill a nodwyd yn cynnwys:

- Rhagor o gynrychiolwyr o’r gymuned leol (yn hytrach na chynrychiolwyr sectorau)
- Aelodau o Gabinet yr Awdurdod Lleol (neu aelodau etholedig lleol yn fwy cyffredinol)
- Pobl sydd ag arbenigedd penodol mewn technolegau neu sectorau a nodwyd fel rhai sy’n flaenoriaeth wrth symud ymlaen.

#### 4.2.3 Buddion ymddangosiadol bod yn aelod o’r Grŵp Gweithredu Lleol

Nodwyd amrywiaeth o fuddion pan ofynnwyd i aelodau’r Grŵp Gweithredu Lleol ddisgrifio sut, os o gwbl, maent yn elwa o fod yn aelod o’r Grŵp. Roeddynt yn cynnwys:

- Rhwydweithio (y budd a nodwyd amlaf)
- Ffordd i roi rhywbeth yn ôl i’r gymuned leol
- Cael gwybod am brosiectau a gweithgareddau – y tu allan i faes gwaith arferol unigolion
- Codi ymwybyddiaeth o’r sefydliad y maent yn ei gynrychioli
- Bod yn fwy strategol yn eu ffordd o feddwl (yn sgil ymwybyddiaeth o weithgareddau eraill).

Mae buddion o’r fath yn ganlyniad pwysig i ddull LEADER ac mae angen eu hystyried ochr yn ochr ag unrhyw drafodaeth ynglŷn â chanlyniadau a gyflawnir gan brosiectau a gyllidir gan y rhaglen.

### 4.3 Rôl y Corff Arweiniol

Roedd aelodau’r Grŵp Gweithredu Lleol yn gyffredinol gadarnhaol pan ofynnwyd iddynt wneud sylwadau am y rôl a chwaraeir gan Fenter Môn fel corff arweiniol i’r grŵp, gan bwysleisio’r ffordd effeithiol y chwaraeir y rôl. Mynegwyd rhai pryderon, ond lleiafrif oedd y sylwadau hyn. Roedd y materion a godwyd yn cynnwys:

- Pryderon bod y prosiectau a’r rhaglen yn fwy cyffredinol yn cael eu gyrru ormod gan dîm Menter Môn (yn gysylltiedig â’r awydd am ymwneud mwy â’r gymuned leol);
- Diffyg gallu ymddangosiadol ym Menter Môn (ar lefel cyflawni prosiectau a gweinyddol).

Mae'r dull gweithredu ym Môn (fel yng Ngwynedd) yn wahanol i'r hyn a ddefnyddir mewn ardaloedd eraill lle y caiff LEADER ei gyflawni, wrth i swyddogion prosiect fod â rôl llawer amlycach yn y gwaith o ddatblygu ac wedyn cyflawni prosiectau ar ran y Grŵp Gweithredu Lleol; yn ymarferol, caiff prosiectau eu cyflawni'n bennaf 'yn fewnol' gan dîm Menter Môn, er bod enghreifftiau hefyd lle y caiff y gwaith o gyflawni prosiectau (neu rai agweddau arnynt) ei wneud gan gontractwyr wedi'u caffael gan dîm Menter Môn<sup>14</sup>. Mewn rhannau eraill o Gymru, mae'r dull yn canolbwyntio'n bennaf ar y dull mwy traddodiadol o ddarparu cymorth ariannol i sefydliadau allanol gyflawni prosiectau a ddatblygwyd ganddynt.

Mae i'r dull hwn nid yn unig nifer o fanteision, ond hefyd anfanteision, fel sydd wedi'u crynhoi yn y tabl isod.

Tabl 4.1: Manteision ac anfanteision y model o gyflenwi prosiectau'n fewnol a ddefnyddir yn Ynys Môn

<b>Manteision</b>	<b>Anfanteision</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Yn gyffredinol, mae'r prosiectau'n fwy arloesol</li><li>• Mae mwy o allu oddi mewn i'r corff arweiniol (y rhan fwyaf o'r staff)</li><li>• Nid yw'r gwaith cyflawni wedi'i gyfyngu gan faterion 'gallu' oddi mewn i sefydliadau cyflawni</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Caiff llai o gyllid ei ddsbarthu i sefydliadau yn y gymuned</li><li>• Llai o ganlyniadau 'meithrin gallu' ar gyfer sefydliadau allanol</li></ul>

Defnyddiwyd dull thematig o ran gwaith y swyddogion prosiect hyd at bwynt canol oes y rhaglen; roedd y swyddogion prosiect yn gyfrifol am waith oddi mewn i feysydd thematig rhaglen LEADER. Fodd bynnag, newidiwyd y dull hwn yn ddiweddar yn sgil pryderon ynglŷn â chydbwysed yn y tîm o ganlyniad i'r dull hwn (hynny yw, nid yw maint y gwaith yn gyfartal rhwng y themâu).

Mantais fawr dull thematig (yn amlwg) yw y gall y swyddog dan sylw ganolbwyntio ar y maes hwnnw a datblygu eu cysylltiadau, lefel arbenigedd ac ati. Mae risg y caiff hyn ei golli pan gaiff y dull ei newid, er bod hyn yn annhebygol pan fo'r tîm yn gymharol fach ac yn cydweithio'n barhaus.

Yn ystod y cyfweiliadau, awgrymwyd llond dwrn o welliannau posibl i waith y corff arweiniol:

- Gwell gwefan i Arloesi Môn (caiff ei ystyried yn ddiffygiol o gymharu â gwefan Gwynedd)
- Rhagor o weithgareddau marchnata a chyhoeddusrwydd i'r rhaglen yn gyffredinol
- Fideos ynglŷn â'r prosiectau a gynorthwywyd (astudiaethau achos)
- Hyrwyddo mwy o rôl y Grŵp Gweithredu Lleol yn y rhaglen

<sup>14</sup> Mewn meysydd eraill, mae'r dull yn fwy traddodiadol, wrth i sefydliadau allanol ddatblygu prosiectau, cyflwyno ceisiadau am gymorth ariannol i'r Grŵp Gweithredu Lleol ac, os cânt eu cadarnhau, cyflawni'r prosiectau hynny.

- Manteisio mwy ar brofiad blaenorol Menter Môn i gael syniadau am brosiectau ac ati, ynghyd â hyrwyddo mwy ar brosiectau a gynorthwywyd gan gylchoedd blaenorol y rhaglen yn Ynys Môn.

## 4.4 Bywiocáu ac ymgysylltu â'r gymuned leol

Mae dull LEADER yn cynnwys 'bywiocáu' yr ardal leol o ran ymgysylltu â'r gymuned leol. Gall hyn gynnwys amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys grymuso neu gynorthwyo grwpiau a sefydliadau lleol i ddatblygu a gweithredu prosiectau (yn unol â'r Strategaeth Datblygu Lleol), neu weithgareddau mwy cyffredinol sy'n canolbwyntio ar yr ardal leol (megis gwella ymwybyddiaeth o dreftadaeth leol a chyfleoedd cysylltiedig).

### 4.4.1 Barn aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol

Yn gyffredinol, prin oedd y sylwadau a wnaeth aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol am weithrediad gweithgareddau bywiocáu yn yr ynys. Mae'n ymddangos bod hyn (o leiaf yn rhannol) oherwydd diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r fath eirfa na ddefnyddir yn aml gan dîm Menter Môn, sy'n fwy tebygol o ddefnyddio termau fel 'ymgysylltu â'r gymuned' i ddisgrifio'r gweithgarwch. Serch hynny, hyd yn oed o ystyried hyn, mae hefyd yn ymddangos yn glir bod aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol yn ystyried bod bywiocáu yn rhywbeth a gaiff ei adael yn bennaf i dîm Menter Môn i'w reoli a'i gyflawni ar eu rhan (gydag ychydig arweiniad neu oruchwyliaeth yn unig); y mae'n sicr yn ymddangos y bu ffocws y Grŵp Gweithredu Lleol ar brosiectau yn hytrach nag unrhyw agwedd arall ar ddull LEADER.

Fodd bynnag, fel a nodwyd yn flaenorol, mynegwyd rhai pryderon yn ystod y cyfweiliadau ynglŷn â'r graddau y caiff cymunedau yn Ynys Môn eu cynnwys yn rhaglen LEADER, ac roedd pryder yn benodol ynglŷn â gorddibyniaeth ar rwydweithiau a chysylltiadau presennol tîm Menter Môn (yn hytrach nag ymgysylltu cymunedol newydd a diffuant). Tynnwyd sylw hefyd at ddiffyg cysondeb posibl yn null gweithredu gwahanol swyddogion prosiect, a bod angen adolygu hynny.

## 4.5 Arloesi

Arloesi yw un o flaenoriaethau trawsbynciol rhaglen LEADER. Mae'r ffocws ar arloesi yn seiliedig ar y ddadl bod gwneud "mwy o'r un peth" yn annhebygol o alluogi ardal i gyflawni ei llawn botensial, ac y dylid edrych am atebion newydd i broblemau presennol. Yr amcan yw annog a chynorthwyo dulliau ac atebion blaengar ac entrepreneuriaidd i fynd i'r afael â materion lleol a rhannu a throsglwyddo profiad o'r fath.

Ceir 72 o gyfeiriadau at 'arloesi' yn Strategaeth Datblygu Lleol Ynys Môn, gan gynnwys:

- *Mae'r Strategaeth Datblygu Lleol wedi cael ei sefydlu i fod yn labordy o weithredu arloesedd, o dan yr hyn a ddisgwyliwn a fydd yn rhaglenni prif ffrwd yr UE dros y pum mlynedd nesaf (tudalen 9)*
- *...bydd partneriaeth Ynys Môn yn glynu wrth y ddwy reol o ddefnyddio LEADER i dreialu arloesedd go iawn a chanolbwyntio ei wariant ar weithgaredd cyn-fasnachol yn y sector busnes ac ar arbrofi arloesedd mewn sectorau eraill (tudalen 11)*



- *Mae gweithgarwch bywiocáu LEADER yn llawer mwy effeithiol wrth weithio ag unigolion parod, ymrwymedig a gwybodus a gaiff eu herio i newid sefyllfa bresennol benodol drwy arloesi (tudalen 26).*

Yn adran 3.3 Strategaeth Datblygu Lleol ceir 'disgrifiad o arloesedd' (un o ofynion y templed) ac meddai:

*Mae Strategaeth Datblygu Lleol Ynys Môn yn cydnabod bod angen newid mewn pwyslais fel bod gan gymunedau o ymarferwyr yn Ynys Môn gyfle gwirioneddol i lywio arloesedd yn eu sectorau hwy.*

*Bydd Strategaeth Datblygu Lleol Ynys Môn yn sicrhau arloesedd fel a ganlyn:*

- *Mae **PROSES LEADER wedi'i gweithredu'n llwyr ac yn ystyrlon i safon uchel** – wedi'i sicrhau wrth gymhwyso methodoleg LEADER yn gyson drwy fod staff profiadol yn gosod heriau, arwain llwybrau a sicrhau targedau y mae modd eu cyflawni.*
- ***Mae'r Grŵp Gweithredu Lleol yn gynrychiolwyr gwybodus a gweithgar o fuddiant economaidd-gymdeithasol a chymunedol** yn yr ynys. Mae'n hanfodol bod aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol yn ddeallus, empathig, amhleidiol a bod ganddynt farn gytbwys ar bwrpas ac Amcanion Penodol y Strategaeth Datblygu Lleol.*
- ***Dyfeisir gweithredoedd er mwyn ymateb i'r Amcanion Penodol ym mhob un o'r pum thema.** Yr hyn yw gweithredoedd yw dulliau NEWYDD a/neu fentrau NEWYDD sy'n mynd i'r afael â heriau economaidd-gymdeithasol anodd neu greu llwybrau i ddefnyddio cyfleoedd economaidd-gymdeithasol y cytunwyd arnynt. Mae modd cyflenwi gweithredoedd o fewn amserlen y Strategaeth Datblygu Lleol er mwyn profi eu hansawdd arloesol, cânt eu rheoli'n effeithiol fel eu bod yn cynhyrchu allbynnau a barn gytbwys ar gynaliadwyedd a hyfywedd, mae ganddynt lwybrau dilyniant i'w cyflwyno a chânt eu lledaenu'n briodol.*

Mae'r dyfyniadau hyn yn dangos yr ymrwymiad i arloesi sydd yn y Strategaeth Datblygu Lleol ac mae modd dadlau bod ymrwymiad o'r fath wedi'i weithredu ac eithrio, o bosibl, y frawddeg olaf yn y pwynt bwled olaf (er mai teg yw dweud ei bod yn dal yn gymharol gynnar yn oes y rhaglen i gyflawni'r ymrwymiad hwn), sy'n fater a drafodir ymhellach isod.

Roedd yr holl gyfweleion yn amlwg yn ymwybodol o'r pwyslais ar arloesi yn rhaglen LEADER, a disgrifient sut y caiff lefel yr arloesi mewn ceisiadau ei thrafod bob amser, sy'n amlwg yn beth cadarnhaol. Er i rai cyfweleion fynegi rhywfaint o siom (neu obaith) am lefel uwch o arloesi yn y ceisiadau am gymorth a gyflwynir, y farn gyffredinol oedd y bu lefelau rhesymol o arloesi yn y prosiectau a gynorthwywyd hyd yma, os oedd y diffiniad yn golygu peilota neu brofi gwasanaeth neu ffordd o weithio na welwyd yn Ynys Môn yn flaenorol.

Yr uchod yw'r diffiniad o arloesi a dderbynnir yn gyffredinol ar gyfer rhaglen LEADER ledled Cymru. Er nad yw'r agwedd hon ar arloesi yn anghywir, mae modd dadlau bod y diffiniad yn wan o ystyried bod y ffocws ar arloesi yn y rhaglen yn seiliedig ar y syniad nad yw gwneud "mwy o'r un peth" yn ddigonol ac y dylid ceisio atebion newydd i broblemau presennol. Gallai fod yn briodol, felly, rhoi mwy o ffocws ar syniadau gwirioneddol arloesol o leiaf yn rhan o'r rhaglen wrth symud ymlaen.

Nid yw hyn i awgrymu bod y prosiectau a gyflawnwyd drwy LEADER yn Ynys Môn hyd yma yn arbennig o anaroesol; yn wir, mae modd dadlau bod y prosiectau yn Ynys Môn yn fwy arloesol na'r rhai sy'n cael eu cynorthwyo gan LEADER mewn ardaloedd eraill o Gymru. Fodd bynnag, mae dadl hefyd bod lle i ddatblygu lefel yr arloesi o fewn prosiectau yn bellach, yn arbennig o ystyried y pwyslais clir iawn ar bwysigrwydd hynny yn y Strategaeth Datblygu Lleol.

Gallai amryw ddulliau o wneud hyn gael eu hystyried er mwyn cyflawni hyn. Fel man cychwyn, byddem yn argymhell adolygu'r amryw becynnau cymorth a chanllawiau sydd ar gael drwy wefan Nesta<sup>15</sup>. Dylid hefyd archwilio'r potensial i gydweithredu â rhaglenni â chynlluniau eraill yng Nghymru a ddyluniwyd i hybu arloesedd<sup>16</sup>.

Ymhellach, mae angen pwysleisio'r angen i gwblhau'r hyn a ddisgrifir fel 'cyloch arloesi'. Mae llawer o fersiynau o'r cyloch neu'r broses hon i'w cael, ac mae'r cyfan yn gyffredinol yn cloi ag adolygiad o'r elfen arloesol sydd wedi'i chyflwyno, ac ar ôl hynny caiff naill ai ei 'phrif ffrydio', ei haddasu ar gyfer peilot pellach neu'i gollwng fel rhywbeth nad yw'n werth ei chyflwyno'n ehangach. Mae'r broses 'adolygu' derfynol hon yn rhan hanfodol. Hyd yma, mae'n ymddangos mai cyfyngedig fu'r pwyslais ar hyn o fewn LEADER yn Ynys Môn (nad yw'n syndod, efallai, o ystyried bod y rhaglen yn dal i fod ar ei chanol). Serch hynny, mae'n bwysig iawn bod hyn yn digwydd.

## 4.6 Rhwydweithio a Chydweithredu

Rhan allweddol arall o LEADER yw rhwydweithio ymysg cyfranogwyr y tu mewn i ardal y Grŵp Gweithredu Lleol ac ymysg partneriaethau cyhoeddus-preifat eraill, er mwyn sefydlu sylfaen gryfach ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth a chyfnewid profiadau. Mae rhwydweithio yn cynnwys cyfnewid llwyddiannau, profiadau a gwybodaeth ymarferol rhwng grwpiau LEADER, ardaloedd gwledig, gweinyddiaethau a sefydliadau sy'n ymwneud â datblygu gwledig yn yr Undeb Ewropeaidd, p'un a ydynt yn fuddiolwyr uniongyrchol LEADER ai peidio. Mae rhwydweithio yn fodd i drosglwyddo arferion da, lledaenu arloesedd ac adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o ddatblygu gwledig lleol.

---

<sup>15</sup> Sefydliad arloesedd yw Nesta (<https://www.nesta.org.uk/>). Mae'r sefydliad yn gweithredu drwy gyfuniad o raglenni, buddsoddiad, polisi ac ymchwil, yn ogystal â thrwy ffurfio partneriaethau, i hybu arloesedd ar draws amrywiaeth eang o sectorau.

<sup>16</sup> Gweler: <https://businesswales.gov.wales/innovation/cy>

Mae cydweithredu hefyd yn un o nodweddion craidd LEADER. Gyda Grwpiau Gweithredu Lleol ledled Ewrop, gallai fod cyfoeth sylweddol ym mhrofiad, gwybodaeth a chyfalaf dynol LEADER o ran datblygu lleol, ac mae cydweithredu'n cynnig ffordd i fanteisio ar yr adnodd hwn. Gall Grwpiau Gweithredu Lleol ddefnyddio (neu gyfrannu tuag at) y rhwydwaith hwn er mwyn datblygu'r Grŵp, ymgymryd â phrosiectau neu fentrau ar y cyd, arloesi, neu rannu neu drosglwyddo gwybodaeth a phrofiad.

Nododd y cyfweleion fod y Grŵp Gweithredu Lleol ei hun yn darparu cyfle i'r aelodau rwydweithio, ac yn wir nodwyd bod rhwydweithio yn un o fuddiannau bod yn aelod o'r grŵp. Mae aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol hefyd wedi bod i lond dwrn o ddigwyddiadau rhwydweithio mewn perthynas â LEADER, ond nodwyd bod amser yn gyfyngiad mawr ar eu gallu i gymryd rhan mewn gweithgarwch o'r fath, hyd yn oed pan oeddynt yn arbennig o awyddus i wneud hynny. Cymerodd tîm Menter Môn ran mewn digwyddiadau o'r fath hefyd (gan gynnwys digwyddiadau rhyngwladol), ac ystyriwyd eu bod o rywffaint o fudd. Fodd bynnag, nodwyd yr heriau sydd i adeiladu prosiect cydweithredol (yn dilyn gweithgareddau o'r fath), ac amser, unwaith eto, oedd y prif gyfyngiad.

Prin oedd y rhwydweithio y nodwyd iddo ddigwydd hyd yma ar 'lefel prosiectau', er bod cydnabyddiaeth mai braidd yn gyfyngedig yw'r gwerth posibl sydd i rwydweithio o'r fath ar gam cymharol gynnar yn oes y rhaglen. Serch hynny, byddai gwerth rhwydweithio ar lefel prosiectau yn cynyddu wrth i brosiectau symud yn bellach i'w camau cyflawni ac wedi iddynt gael eu cwblhau.

Gan edrych y tu hwnt i Ynys Môn, meddai'r cyfweleion fod rhywfaint o rwydweithio'n digwydd ar lefel swyddogion gyda Grwpiau Gweithredu Lleol eraill, yn arbennig y rhai sy'n gweithio yng Ngwynedd o ganlyniad i'r ffaith mai Menter Môn yw'r corff arweiniol ar gyfer y Grŵp Gweithredu Lleol yn yr ardal honno hefyd.

O'r cyfweiliadau, mae'n ymddangos yn glir mai cyfyngedig yw ymwybyddiaeth aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol o weithgareddau a phrosiectau a wneir gan Grwpiau Gweithredu Lleol mewn rhannau eraill o Gymru. Mae hyn er bod Rhwydwaith Gwledig Cymru yn bodoli, sy'n rhannu gwybodaeth am brosiectau a gynorthwyir gan Grwpiau Gweithredu Lleol ar ei wefan<sup>17</sup>.

Roedd y cyfweleion yn gyffredinol hapus â lefel y cydweithredu a wneir, gan nodi nifer y prosiectau cydweithredol a gyllidwyd/weithredwyd gyda Grwpiau Gweithredu Lleol o rannau eraill o Gymru, yn arbennig gyda siroedd cyfagos. Fodd bynnag, nid oes prosiectau cydweithredol wedi'u datblygu gydag unrhyw Grwpiau Gweithredu Lleol y tu allan i Gymru hyd yma, a allai fod yn achos sylweddol o golli cyfle i weithio gyda / dysgu gan Grwpiau mewn rhannau eraill o'r Undeb Ewropeaidd.

---

<sup>17</sup> Fforwm yw Rhwydwaith Gwledig Cymru sy'n hybu cyfnewid arbenigedd ym maes datblygu gwledig. Caiff ei gyflawni gan Lywodraeth Cymru a'i gyllido gan Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Gweler: <https://businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/cy/grwpiau-gweithredu-lleol-phrosiectau>

Fodd bynnag, nododd aelodau'r staff y ffaith bod cyfyngiadau/pwysau ar eu hamser yn cyfyngu faint o sylw y gallent roi i ddatblygu prosiectau cydweithredol (sy'n dueddol o fod yn drwm ar adnoddau), gan bwysleisio bod yn rhaid blaenoriaethu gwaith a bod datblygu a chyflawni prosiectau 'lleol' yn flaenoriaeth dros brosiectau cydweithredol.

## 5 Adborth rhanddeiliaid y prosiectau

### Pwyntiau allweddol

- Llond dwrn o randdeiliaid a gymerai ran mewn prosiectau a ymatebodd i arolwg a ddsbarthwyd i gysylltiadau gan dîm Menter Môn.
- Serch hynny, mae'r ymatebion a dderbyniwyd yn gadarnhaol iawn, gan awgrymu y gall cymryd rhan ym mhrosiectau LEADER gael effaith gadarnhaol iawn ar randdeiliaid.
- Mae'r adborth ar y cymorth a ddarparwyd gan Fenter Môn yn gadarnhaol iawn.

### 5.1 Cyflwyniad

Dosbarthwyd holiadur ar-lein i randdeiliaid a fu'n ymwneud â phrosiectau a gyflawnwyd fel rhan o raglen LEADER, gyda'r bwriad o gasglu eu barn am y prosiectau a sut, os o gwbl, y gwnaethant elwa o ganlyniad i ymwneud â hwy. Yn anffodus, 11 ymateb yn unig a dderbyniwyd, a rhai ohonynt yn rhannol, gan gynrychioli 22 o'r prosiectau a gynorthwywyd yn ariannol (hynny yw, roedd ymatebwyr yn ymwneud a mwy nag un prosiect). Mae'r nifer isel o ymatebion yn golygu bod angen bod yn ofalus wrth ystyried y canfyddiadau fel a nodir isod. Caiff tystiolaeth ychwanegol ei chasglu oddi wrth randdeiliaid wrth i'r gwerthusiad fynd rhagddo. Fodd bynnag, mae canfyddiadau'r data a gasglwyd hyd yma yn rhoi dealltwriaeth o farn a phrofiad rhanddeiliaid y prosiectau.

### 5.2 Gwneud i bethau ddigwydd

Ymatebodd deg o randdeiliaid pan ofynnwyd iddynt ystyried pa mor debygol oedd y byddai'r prosiect(au) yr oeddent hwy'n ymwneud â hwy wedi digwydd beth bynnag heb gymorth Arloesi Môn. Un yn unig a ddwedodd ei bod yn debygol, meddai pump fod 'dim posibilrwydd' y byddai'r prosiect wedi digwydd heb gymorth ac meddai tri arall ei bod yn annhebygol. Os yw hyn yn gynrychioliadol o'r holl brosiectau a gynorthwywyd, y mae'n awgrym cadarnhaol iawn o ychwanegedd LEADER o ran cynorthwyo prosiectau i ddigwydd.

Roedd y sylwadau a wnaed yn aml yn gysylltiedig â diffyg gallu i weithredu'r prosiect heb gymorth Arloesi Môn, gan gynnwys:

*“Mi fûm i'n ymwneud ag amryw brosiectau. Dwi'n credu y byddai ambell un wedi digwydd beth bynnag, ond fyddai'r rhan fwyaf heb fod yn ddichonadwy heb gymorth Arloesi Môn.”*

*“Mae'r cymorth a ddarparwyd wedi datblygu'r prosiect yn gyflymach ac i lefel uwch.”*

## 5.3 Cyflawniadau ymddangosiadol y prosiectau

Er mai amrywiol oedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd mwyafrif yr atebion yn canolbwyntio ar y buddiannau i'w cymunedau a thrigolion lleol. Nododd yr ymatebion fod effeithiau'r prosiectau yn gadarnhaol, gan wella ymgysylltiad a darparu llwybr i ddatblygu cyfleoedd yn y cymunedau i genedlaethau'r dyfodol. Roedd y canlyniadau eraill a nodwyd yn cynnwys:

- Ymgysylltu ac ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd
- *"Ennyn diddordeb go iawn"*
- *"Ysgogi brwdfrydedd"*
- Creu digwyddiadau cymdeithasol lle mae sawl cenhedlaeth yn ymgynnull mewn cyfleusterau cymunedol
- Cyflenwi gwasanaethau drwy brosiectau peilot
- Hyrwyddo'r ardal
- Dwyn rhanddeiliaid ynghyd i ddatblygu gwasanaethau newydd
- Dangos diddordeb mewn treftadaeth leol
- Annog gwasanaethau i gael eu darparu.

Diddorol yw nodi i fwyafrif yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn nodi bod y prosiect(au) yr oeddynt yn ymwneud â hwy yn perfformio'n well nag oeddynt wedi disgwyl.

## 5.4 Ymwneud yn flaenorol â datblygu gwledig

Er bod ein sampl yn fach, ac felly efallai nad yw'n gynrychioliadol o'r holl randdeiliaid sy'n ymwneud â phrosiectau Arloesi Môn, diddorol yw nodi i bedwar o naw o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn nodi na fu iddynt fod yn ymwneud ag unrhyw brosiectau a gyflawnwyd yn Ynys Môn wledig o'r blaen. Byddai hyn yn awgrymu y llwyddodd y rhaglen i ymgysylltu â grŵp o randdeiliaid na fu'n ymwneud â phrosiectau gwledig yn yr ynys o'r blaen. Serch hynny, mae'r sampl yn fach; bydd angen casglu mwy o ddata, felly, er mwyn cadarnhau a yw hyn yn cael ei adlewyrchu'n ehangach ai peidio. Fodd bynnag, byddai hyn yn ganlyniad cadarnhaol i broses LEADER yn Ynys Môn, gan fod 'meithrin datblygu economaidd lleol' yn un o amcanion allweddol dull LEADER ac o elfen fywiocau'r rhaglen yn benodol.

## 5.5 Dysgu a datblygiad personol

Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid ddisgrifio beth, os o gwbl, y maent hwy (fel unigolyn) wedi ei ddysgu o ganlyniad i ymwneud â'r prosiect(au) a Menter Môn. Mae'r dysgu personol a nodwyd yn cynnwys:

- Y gall prosiectau a syniadau gael eu gweithredu'n llwyddiannus
- Bod ewyllys i archwilio ffyrdd arloesol o gyflenwi gwasanaethau er gwaethaf yr heriau economaidd anodd y mae gofal cymdeithasol ac iechyd yn eu hwynebu
- *"Ar lefel bersonol, mae'r prosiect wedi galluogi inni archwilio arferion gorau ledled y Deyrnas Unedig a nodi sut gall ein prosiect ddysgu o'r wybodaeth a'r profiad a chymhwysyo hyn at wasanaethau sy'n seiliedig yma yn Ynys Môn"*

- Cymaint o hanes lleol nad yw'n hysbys i'r cyhoedd
- *"Mi ddysgais hefyd am bwysigrwydd gwaith tîm a chydweithredu lleol wrth gyflawni'r prosiectau yma, a sut mae grwpiau fel Menter Môn yn bwysig wrth helpu i hwyluso'r gwaith o greu'r cyfleusterau hyn yn lleol"*
- *"Mi ddysgais fod Arloesi Môn yn gwneud llawer iawn o waith da i gynorthwyo cymunedau a datblygu syniadau cynaliadwy."*

Mae nifer y sylwadau sy'n ymwneud ag ansawdd y cymorth a ddarparwyd gan Fenter Môn yn nodedig.

Ymhellach, gofynnwyd i'r rhanddeiliaid wneud sylwadau am b'un a oedd eu profiad o weithio gydag Arloesi Môn wedi dylanwadu ar eu ffordd o feddwl o ran datblygu gwledig yn Ynys Môn. Dyma rai o'r sylwadau a wnaed:

- Mae gweithio gydag Arloesi Môn wedi ehangu barn yr ymatebwyr o *"beth sydd allan yno a beth gallwn wneud ar y cyd i wella datblygu gwledig"*
- *"Bod datblygu gwledig yn hanfodol, oherwydd mi all yr unigolion a gynorthwywn fod ar eu pen eu hunain ac yn unig, a gall mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd fod yn her ddyddiol"*
- Bod Ynys Môn yn ardal sy'n *"llawn potensial, yn arbennig yng nghanol Ynys Môn"*. Mae llawer o storïau yno'n barod i'w hadrodd – o frwydrau i gaerau Celtaidd a mynachlogydd coll.

Unwaith eto, mae'r sylwadau hyn yn awgrym o'r canlyniadau cadarnhaol y gal dull LEADER eu creu y tu hwnt i gyraeddiadau a chanlyniadau uniongyrchol y prosiectau eu hunain.

Meddai'r holl ymatebwyr eu bod yn debygol o barhau i ymwneud â phrosiectau yn Ynys Môn wledig wrth symud ymlaen, a bod ymwneud â phrosiectau a gynorthwywyd gan Arloesi Môn wedi cael dylanwad cadarnhaol ar eu bwriad i barhau i ymwneud.

*"Mi ydw i / ydan ni wedi dysgu cymaint o'n profiadau ac yn medru trosglwyddo'r wybodaeth honno ymlaen i brosiectau o gyffelyb fryd, ac mae wedi rhoi mwy o hyder o ddeall oddi mewn i ba ffiniau y mae modd i brosiectau o'r fath gael eu cyflawni, a chydabod y gwahanol ddylanwadau wrth geisio cynorthwyo cymunedau gwledig."*

*"Mi fyddwn i'n sicr eisiau ymwneud â rhagor o brosiectau, ac mi fydda i hefyd yn gwneud cais am gyllid pellach os yw'n briodol i'n gwasanaethau ac ar gael."*

*"Mi gefais ddealltwriaeth o Ynys Môn wledig, er fy mod i'n ymwybodol, ond mi wnaeth agor fy llygaid go iawn i ragor o gyfleoedd, anghenion a llwyddiannau."*

*"Hogyn ifanc gwledig ydw i sy'n hoff o hanes lleol. Mi wna i unrhyw beth y medraf i i'w hyrwyddo."*

*"Dwi'n awyddus i fod yn rhan o brosiectau eraill lle mae rhannu profiadau'n cael ei ystyried yn arfer da."*

*“Dwi’n gobeithio bod yn rhan o raglenni yn y dyfodol. Mae cael bod yn rhan yn golygu fy mod i’n fwy ymwybodol o’r cyfleoedd a’r heriau yng Ynys Môn wledig.”*

Meddai’r holl ymatebwyr (n=9) hefyd iddynt gwrdd a/neu eu bod yn gweithio gyda phobl wahanol am y tro cyntaf o ganlyniad i ymwneud ag Arloesi Môn, sydd, unwaith eto, yn ganlyniad cadarnhaol.

*“Mi gefais y cyfle i weithio hefo gwahanol asiantaethau ac unigolion ac mae hyn wedi bod yn brofiad rhagorol gan ddod â gwybodaeth ychwanegol i mi a fy nghydweithwyr. Mae wedi fy ngalluogi i rwydweithio’n fwy effeithiol ac, o ganlyniad, bod yn fwy llwyddiannus wrth gael grant i edrych ar sut medrwn ni ddatblygu cymorth i unigolion ar y sbectrwm awtistiaeth.”*

*“Cwrdd â phobl leol sydd â’r wybodaeth a’r ddawn i fynd â’r maen i’r wal.”*

*“Dwi wedi cyfarfod a dechrau gweithio hefo nifer o bobl nad oeddwn i’n eu hadnabod o’r blaen.”*

## 5.6 Sgôr Hyrwyddwr Net

Offeryn rheoli yw’r Sgôr Hyrwyddwr Net a ddefnyddir i fesur bodlonrwydd cyffredinol cwsmeriaid sefydliad, sef Arloesi Môn yn yr achos hwn. Caiff y sgôr ei gyfrifo ar sail ymatebion i gwestiwn unigol: *Pa mor debygol ydyw y byddech yn argymell [cwmni / cynnyrch / gwasanaeth] i gyfaiil neu gydweithiwr?* Caiff ymatebion eu rhoi ar raddfa o 0 (tebygolrwydd o sero) i 10 (tebygol iawn), gyda’r Sgôr Hyrwyddwr Net yn amrywio o minws 100 (gwael iawn) i plws 100 (da iawn).

Roedd y Sgôr Hyrwyddwr Net ar sail ymatebion 9 o randdeiliaid prosiectau yn gadarnhaol iawn ar +67, gan awgrymu lefel uchel o fodlonrwydd; fodd bynnag, unwaith eto, mae angen ystyried maint y sampl (wrth gwrs).

Roedd y sylwadau a wnaed gan ymatebwyr wrth esbonio’r sgôr a roddwyd yn cynnwys:

*“Mae’n sicr yn werth rhoi cyhoeddusrwydd i’r cymorth a gawsom.”*

*“Mi gefais i brofiad rhagorol ac mae’r prosiect hyd yma wir wedi caniatáu i’r unigolion a gynorthwywn gael eu cynnwys yn y gwaith o gyflawni’r prosiect.”*

*“...er budd yr ynys!”*

*“Mae Arloesi Môn wedi rhoi i bobl mewn ardaloedd gwledig y cyfle i hyrwyddo eu plwy dawl mewn ffordd adeiladol.”*

*“Mae eu cymorth wedi bod yn eithriadol.”*



## 6 Casgliadau ac argymhellion

Mae canfyddiadau'r gwerthusiad canol tymor, ac felly interim, hwn o weithrediad rhaglen LEADER yn Ynys Môn ar y cyfan yn gadarnhaol. Bu i aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol a rhanddeiliaid y prosiectau (gan gydnabod bod y sampl hyd yma yn fach) nodi canlyniadau cadarnhaol yn sgil ymwneud â rhaglen LEADER yn Ynys Môn — canlyniadau pwysig dull LEADER, y mae eu manteision yn mynd y tu hwnt i'r prosiectau a gynorthwywyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynnwys rhanddeiliaid mewn prosiectau datblygu gwledig am y tro cyntaf;
- Newid barn ar yr hyn y mae modd i ymyriad ei gyflawni yn yr ardal leol.

Un o ganfyddiadau allweddol yr adolygiad o'r Strategaeth Datblygu Lleol yw bod y blaenoriaethau a'r amcanion a nodir ynnddi yn eang ac amrywiol iawn, heb lawer o flaenoriaethu. Mae modd dadlau bod y dull hwn yn adlewyrchu'r heriau amrywiol sy'n wynebu Ynys Môn a'r angen i fwrw'r rhwyd yn eang er mwyn nodi prosiectau a syniadau newydd ac arloesol. Serch hynny, credwn fod dadl gryfach dros fwy o flaenoriaethu wrth symud ymlaen er mwyn sicrhau y caiff y cyllid sy'n weddill ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl.

Yr elfen allweddol yn y mater hwn yw bod angen i'r Grŵp Gweithredu Lleol fod yn glir ynghylch beth yw eu hamcan ar gyfer rhaglen LEADER yn Ynys Môn. Os mai amcan y Grŵp yw ariannu syniadau da neu arloesol, waeth beth yw eu tarddiad, gallai ymagwedd eang fod yn briodol. Fodd bynnag, os mai'r amcan yw targedu mwy, a mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd penodol, mwy na thebyg bod angen dull sy'n targedu mwy.

**Argymhelliad 1:** Dylai'r Strategaeth Datblygu Lleol gael ei diweddarau gan ystyried y posibilrwydd o flaenoriaethu mwy dros weddill oes y rhaglen. Dylai'r broses hon gynnwys adolygiad o'r prosiectau a gynorthwywyd hyd yma, wedi'u mapio yn erbyn amcanion y Strategaeth Datblygu Lleol, ac ystyriaeth o'r angen posibl i ymgymryd â gweithgareddau dilynol neu adeiladu ar weithgareddau a gynhaliwyd gan brosiectau a ariannwyd yn flaenorol.

Mae nifer gyfyngedig o ddangosyddion (a thargedau cysylltiedig) yn eu lle er mwyn monitro perfformiad rhaglen LEADER yn Ynys Môn. Mae i ddull o'r fath fanteision o safbwynt gweinyddol. Serch hynny, un o ganlyniadau'r dull hwn yw mai cyfyngedig yw'r data a gesglir ar y graddau y cyflawnwyd y Strategaeth Datblygu Lleol a pherfformiad y rhaglen, yn arbennig ar lefel canlyniadau (canlyniadau yw'r rhan fwyaf o'r dangosyddion, hynny yw gweithgareddau). Mae dadl felly dros gyflwyno dangosyddion ychwanegol a gwnaed rhai awgrymiadau yn yr adroddiad hwn y dylid eu hystyried gan y Grŵp Gweithredu Lleol.

**Argymhelliad 2:** Dylid rhoi ystyriaeth i gyflwyno dangosyddion perfformiad ychwanegol ar gyfer gweithredu'r Strategaeth Datblygu Lleol yn Ynys Môn, gan gynnwys dangosyddion cyffredinol a dangosyddion ar thema sy'n ymwneud â thema neu flaenoriaeth benodol.

Mae'r nifer gyfyngedig o ddangosyddion ar lefel rhaglen hefyd yn golygu bod y rhaglen yn ddibynnol, i raddau helaeth, ar i'r gweithgareddau monitro a gwerthuso gael eu cynnal ar lefel prosiect. Mae'n bwysig iawn, felly, sicrhau bod ansawdd y gwaith monitro a gwerthuso a gaiff ei gynnal ar lefel prosiect yn uchel.

**Argymhelliad 3:** Dylid adolygu'r gweithgareddau monitro a gwerthuso a gynhelir ar lefel prosiect. Ochr yn ochr â hyn, dylid ystyried y potensial i ddarparu gweithdai gwerthuso neu sesiynau hyfforddiant i swyddogion prosiect, gyda'r nod o sicrhau'r gwerth uchaf i'r data a gesglir ar lefel prosiect.

Mae'n ymddangos bod lefel uchel o ddealltwriaeth o ddull LEADER ar lefel y Grŵp Gweithredu Lleol, sy'n amlwg yn gadarnhaol, er mai testun rhywfaint o bryder yw'r niferoedd isel sy'n mynd i rai cyfarfodydd. Serch hynny, mae angen cydnabod cymhlethdod cymharol y rhaglen, yn ogystal â'r angen i sicrhau bod aelodau'r Grŵp yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod ganddynt wybodaeth ymarferol dda o'r rhaglen a'r trafodaethau a gynhaliwyd yn ystod cyfarfodydd blaenorol. Yn ychwanegol, roedd pryderon ymysg cyfweleion ynglŷn â dealltwriaeth, neu'n wir ymwybyddiaeth, o LEADER a rôl y Grŵp ymysg rhanddeiliaid y tu allan i'r Grŵp. Gallai hyn fod yn fater y dymunai'r Grŵp ei archwilio ymhellach ar adeg pan fydd dulliau datblygu gwledig i'r dyfodol yng Nghymru yn cael eu hystyried yng nghyd-destun ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd.

**Argymhelliad 4:** Dylai aelodaeth y Grŵp Gweithredu Lleol gael ei hadolygu'n barhaus i sicrhau bod gan yr aelodau y gallu i ymrwymo'n llawn i'r Grŵp. Lle na all aelodau ymrwymo amser digonol i'r Grŵp, dylid ceisio aelodau yn eu lle.

Nododd aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol amryw ffyrdd yr oeddynt wedi elwa o ganlyniad i ymwneud â'r Grŵp. Dyma un o ganlyniadau pwysig dull LEADER, ac mae'r Grŵp yn elfen allweddol ohono. Dylid archwilio'r potensial i dynnu sylw darpar aelodau newydd at y buddion hyn, ynghyd â'r posibilrwydd o ddatblygu buddion pellach i'r aelodau.

**Argymhelliad 5:** Dylid rhoi ystyriaeth i gyflwyno rhaglen o hyfforddiant i aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol ynglŷn â materion a phynciau sy'n berthnasol i'r Strategaeth Datblygu Lleol a dull LEADER. Er enghraifft, gellid darparu hyfforddiant ar ddatblygu lefelau arloesedd mewn sefydliad. Gallai'r ffaith bod y fath hyfforddiant yn cael ei ddarparu gael ei ddefnyddio wedyn fel ffordd i ddenu aelodau newydd a phresennol i gyfarfodydd.

**Argymhelliad 6:** Dylid cydnabod y rôl allweddol mae aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol yn ei chwarae o ran codi ymwybyddiaeth o raglen LEADER yn Ynys Môn. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r Grŵp rôl bwysig yn y gwaith o fywiocáu'r ardal leol. Dylid archwilio'r potensial i ehangu rôl aelodau'r Grŵp i fod yn 'llysgenhadon' dros LEADER, gan gynnwys cynrychioli'r Grŵp mewn digwyddiadau neu gyfarfodydd, arwain gweithgareddau gyda sectorau penodol, ac ati. Dylai'r aelodau gael eu hannog hefyd i nodi/hyrrwyddo eu rôl fel aelodau o'r Grŵp yn eu rhwydweithiau a gweithgareddau presennol. Dylid ystyried y potensial i ddatblygu tudalen ar wefan Arloesi Môn sy'n rhestru manylion cyswllt, ac ati, aelodau'r Grŵp ac yn esbonio'r rôl bwysig sydd ganddi.

**Argymhelliad 7:** Dylai'r Grŵp Gweithredu Lleol asesu p'un a oes bylchau yn ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o'r heriau a'r cyfleoedd yn Ynys Môn (e.e. drwy gynnal archwiliad sgiliau). Yn benodol, dylid archwilio opsiynau i gynnwys pobl ifanc a'r sector preifat yng ngweithgareddau'r Grŵp / LEADER (ill dau wedi'i nodi fel bylchau yn y cyfweiliadau gwerthuso), gan gynnwys sefydlu is-grwpiau i'r prif Grŵp Gweithredu Lleol ar gyfer grwpiau (e.e. pobl ifanc) neu sectorau (e.e. y sector preifat) penodol.

Roedd aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol yn gyffredinol gadarnhaol pan ofynnwyd iddynt wneud sylwadau am y rôl a chwaraeir gan Fenter Môn fel corff arweiniol i'r grŵp. Mae hyn (yn amlwg) yn ganfyddiad cadarnhaol.

Mae'n bwysig nodi'r dull gweithredu gwahanol sydd yn Ynys Môn (a Gwynedd) o ran cyflawni prosiectau LEADER, wrth i swyddogion prosiect oddi mewn i Fenter Môn gymryd mwy o gyfrifoldeb am weithredu prosiectau o gymharu ag ardaloedd eraill, lle mae'r dull yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth ariannol i sefydliadau allanol i gyflawni prosiectau a ddatblygwyd ganddynt. Mae sawl mantais i'r dull hwn o gymharu â'r hyn a ddefnyddir mewn ardaloedd eraill. Er enghraifft, mae modd dadlau bod y dull yn Ynys Môn yn annog mwy o brosiectau arloesol i gael eu datblygu a'u gweithredu. Serch hynny, caiff llawer llai o'r cyllid sydd ar gael ei ddsbarthu i grwpiau yn yr ardal leol am fod y prosiectau'n cael eu cyflenwi'n 'fewnol' gan Fenter Môn. Yn ychwanegol, mae hyn yn lleihau'r potensial i ddefnyddio'r cyllid i ddatblygu'r gallu i gyflawni prosiectau oddi mewn i'r sefydliadau allanol hynny. Mae angen cydnabod y cryfderau a'r gwendidau hyn.

Mae 'bywiocáu'r diriogaeth' yn rhan allweddol o LEADER a chanfu'r gwerthusiad botensial i aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol ymwneud yn helaethach â chyfeiriad y gweithgareddau a wneir gan dîm LEADER ar eu rhan; dylai'r Grŵp Gweithredu Lleol gymryd mwy o gyfrifoldeb am y gweithgareddau bywiocáu a wneir.

**Argymhelliad 8:** Mae bywiocáu yn elfen allweddol o ddull LEADER. Gan ystyried y diweddariadau i'r Strategaeth Datblygu Lleol, dylai fod mwy o ffocws ar drafod, cyfarwyddo a monitro gweithgareddau bywiocáu ar lefel y Grŵp Gweithredu Lleol.

**Argymhelliad 9:** Er bod ymrwymo cyllid yn amlwg yn bwysig, dylid bod yn ofalus wrth ymrwymo cyllid pellach, er mwyn sicrhau bod adnoddau digonol yn dal i fod ar gael i gyllido syniadau a cheisiadau a gaiff eu hysgogi gan weithgareddau bywiocáu sydd i'w cynnal yn ystod cyfnod nesaf y rhaglen.

Nododd y gwerthusiad y potensial i ddatblygu ymhellach mewn perthynas â lefel y rhwydweithio sy'n digwydd yn Ynys Môn a'r tu allan (yn arbennig ar lefel y Grŵp Gweithredu Lleol a'r prosiectau), yn ogystal â mwy o ymwybyddiaeth o weithgareddau LEADER eraill yng Nghymru (a thu hwnt) ymysg aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol.

**Argymhelliad 10:** Mae rhwydweithio a chydweithredu hefyd ymysg nodweddion allweddol LEADER. Felly dylid archwilio cyfleoedd ac opsiynau mewn perthynas â'r canlynol:

- a) Rhwydweithio mwy, cyfnewid profiadau, a chydweithredu ar lefel prosiectau yn Ynys Môn; gallai gweithgareddau o'r fath cael eu canolbwyntio ar rannu'r gwersi a ddysgwyd a chanfyddiadau prosiectau LEADER a gynhaliwyd.
- b) Cynyddu ymwybyddiaeth aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol o brosiectau LEADER a gynhelir mewn rhannau eraill o Gymru (a ledled yr UE); os yw'n bosibl, dylid hefyd rhannu gwybodaeth am brosiectau a ddatblygwyd ac a gyflawnwyd yng nghyfnodau blaenorol y rhaglen (yn Ynys Môn a'r tu allan).
- c) Datblygu prosiectau cydweithredol pellach, yn arbennig gyda Grwpiau Gweithredu Lleol y tu allan i Gymru a ledled yr UE; dylid archwilio'r rhain cyn gynted â phosibl er mwyn caniatáu digon o amser i'r prosiectau hyn gael eu datblygu a'u gweithredu.

**Argymhelliad 11:** Un o elfennau allweddol unrhyw brosiect peilot yw cipio a rhannu unrhyw wersi a ddysgir. Dylid rhoi ystyriaeth i gynhyrchu astudiaethau achos / adroddiadau manwl ar gyfer yr holl brosiectau a gyllidir gan LEADER yn Ynys Môn y dylid eu defnyddio i rannu a lledaenu'r canfyddiadau a'r gwersi a ddysgwyd o bob prosiect. Dylid ystyried hefyd y dull o rannu'r dogfennau hynny'n effeithiol â rhanddeiliaid (lleol ac phellach i ffwrdd), e.e. y potensial i gynnal cynadleddau neu weithdai i rannu a thrafod canfyddiadau.

# Atodiad 1: Trosolwg o flaenoriaethau ac amcanion Strategaeth Datblygu Lleol Ynys Môn

## Prif Amcanion

- 1) Erbyn 2020, mae Ynys Môn yn gwireddu posibilrwydd economaidd newydd gyda mwy o gyfleoedd cyflogaeth gwell ar gyfer ei phobl a ddarperir trwy ddefnyddio deallusrwydd economaidd, mentrau bach cyn eu datblygu, swyddi newydd a sylfaen sgiliau well.
- 2) Erbyn 2020, mae pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Ynys Môn wedi'u cysylltu'n well yn ffisegol, yn ddigidol ac yn gymdeithasol ac yn gallu cael mynediad at y mwynderau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt.
- 3) Erbyn 2020, mae pobl Ynys Môn yn gwneud mwy o asedau diwylliannol, hanesyddol, hamddenol a naturiol yr ardal er mwyn gwella profiad ymwelwyr, cynyddu eu niferoedd a'u gwariant a sgiliau a chyflogaeth leol mewn twristiaeth.
- 4) Erbyn 2020, bydd Ynys Môn a Gwynedd wedi sefydlu TRI gweithgaredd cydweithredol, rhyngdiriaethol ac UN prosiect cydweithredol trawsenedlaethol sydd, trwy arloesedd, rhwydweithio a chyfnewid gwybodaeth, yn cyfrannu at gwrdd ag amcanion themâu a blaenoriaethau cysylltiedig y Strategaeth.

## Amcanion Strategol

### *Thema 1: Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol*

- AP1: Sicrhau mwy o werth economaidd lleol i weithredwyr lleol yn sgil Llwybr Arfordir Ynys Môn.
- AP2: Datblygu mwy o gyfleoedd cyflogaeth a busnes newydd i bobl leol trwy arallgyfeirio a chyfuno ffactorau economi'r arfordir.
- AP3: Peri i farchnadoedd treftadaeth a thwristiaeth cyfredol a newydd chwarae mwy o ran yn ardaloedd mewnol yr ynys a datblygu rhagor ar y cyfryw farchnadoedd.
- AP4: Annog busnesau newydd a chyfredol i gymryd mwy o ran mewn marchnadoedd twristiaeth y tu allan i'r tymor a datblygu rhagor ar y cyfryw farchnadoedd drwy gydweithio â chymunedau o ddiddordeb.
- AP5: Cynyddu'r ymgysylltiad â busnesau twristiaeth, eu cyfranogiad a'r budd a ddaw i'w rhan trwy ychwanegu gwerth at ddarpariaethau defnyddio digidol.
- AP6: Cynyddu nifer y busnesau sy'n defnyddio'r pecyn cymorth Naws am Le yn yr ynys.

- AP7: Codi'r defnydd a wneir o'r Gymraeg fel Pwynt Gwerthu Unigryw sydd wedi'i wreiddio yn y rhanbarth, gan osod yr iaith yn ei chyd-destun Ewropeaidd, Celtaidd a lleol drwy ddyfnhau gwerthfawrogiad a gwybodaeth am ei harwyddocâd ehangach mewn treftadaeth Ewropeaidd a dyfalbarhad Celtaidd.
- AP8: Sicrhau bod y Gymraeg i'w chlywed yn y gymuned ac yn y gweithle yn ogystal â chael ei gweld.

*Thema 2: Hwyluso datblygiad cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr*

- AP9: Cynyddu'r cyfleoedd i fusnesau sy'n dechrau a chyflenwad lleol sy'n ychwanegu gwerth a phrosesu dynameg yn y sector bwyd.
- AP10: Gwthio'r agenda bwyd arbenigol yn Ynys Môn, gan gysylltu'n benodol ag ychwanegu gwerth at gynnyrch sylfaenol a bwydydd arbenigol.
- AP11: Pwyso ymlaen gyda datblygu cynhyrchion sy'n ychwanegu gwerth at economi Ynys Môn, yn arallgyfeirio ystod ei chynnyrch ac yn cael cynnyrch i mewn i farchnadoedd estynedig.
- AP12: Darparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc sy'n cyflawni'n dda yn eu sir.
- AP13: Rhoi cyfle i bobl ifanc gael mynediad at gefnogaeth ac offer sy'n hyrwyddo creadigrwydd ac entrepreneuriaeth.
- AP14: Cyd-drefnu consortia busnesau lleol i gael cymorth ac ymwneud yn fwy llwyddiannus â gweithdrefnau caffael ffurfiol.
- AP15: Hwyluso partneriaethau cymunedol a/neu fusnes newydd neu arloesol sy'n creu cyfleoedd newydd i ddatblygu cynnyrch.
- AP16: Manteisio ar dwf yn y sector digidol fel gyrrwr cyffredin twf economaidd.
- AP17: Gwneud y mwyaf o'r Ddinas Dysg ymhellach i mewn i'w hardaloedd ehangach yn Ynys Môn.

*Thema 3: Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol*

- AP18: Gweithredu menter trafndiaeth wledig mewn cymunedau.
- AP19: Peilota a datblygu modelau cyflenwi gwasanaeth newydd yn y gymuned gan ddefnyddio methodoleg sy'n gyfyngedig gan amser, gyda golwg ar eu cyflwyno; yn benodol, mynd i'r afael â meini prawf themâu trawsbynciol mewn perthynas â grwpiau wedi'u tangynrychioli a'u heithrio, ac, yn benodol, mynd i'r afael â nodau trechu tlodi mewn perthynas â gwasanaethau gofal plant, cynhwysiant ariannol, cynhwysiant digidol, datblygu sgiliau ac ati.

- AP20: Gwella'r defnydd a wneir o ganolfannau cymunedol fel peirianwaith i gyflenwi gwasanaeth; yn benodol, mynd i'r afael â meini prawf themâu trawsbynciol mewn perthynas â grwpiau wedi'u tangynrychioli a'u heithrio, ac, yn benodol, mynd i'r afael â nodau trechu tloidi mewn perthynas â gwasanaethau gofal plant, cynhwysiant ariannol, cynhwysiant digidol, datblygu sgiliau ac ati.
- AP21: Lliniaru effeithiau toriadau mewn gwasanaethau trwy arbrofi gyda throsglwyddo gwybodaeth.

#### *Thema 4: Ynni Adnewyddadwy ar Lefel Cymuned*

- AP22: Ceisio sicrhau bod trigolion yn deall yr agenda carbon, eu rôl a'r rhan y maent yn ei chwarae ynddo, a datblygiad graddol eu perchnogaeth ohono.
- AP23: Defnyddio opsiynau sy'n ychwanegu gwerth at goed wedi'u sychu mewn odyn.
- AP24: Hyrwyddo ynni adnewyddadwy at ddefnydd lleol ym musnesau Môn.

#### *Thema 5: Manteisio ar dechnoleg ddigidol*

- AP25: Peilota datrysiadau i fannau gwan.
- AP26: Treialu gwaith yn ymdrin yn uniongyrchol ag eithrio digidol drwy dargedu'r rhai hynny y mae'n anos eu cyrraedd (wedi'i dargedu'n uniongyrchol at themâu trawsbynciol trechu tloidi).
- AP27: Creu ffordd o feddwl ar sail academi ddigidol yn Ynys Môn gyda'r bobl ifanc mwyaf abl er mwyn datblygu entrepreneuriaid y dyfodol.
- AP28: Ymestyn darpariaethau prif ffrwd i'r ardaloedd sydd ym mhellafoedd cefn gwlad ac ardaloedd ucheldir trwy raglennu rhagweithiol, gyda phwyslais ar fusnesau ar y tir.
- AP29: Dod ag Ynys Môn i reng flaen datblygiadau digidol cyfrwng Cymraeg.

## Atodiad 2: Astudiaethau achos prosiectau, wedi'u llunio o ffurflenni terfynu prosiectau

### Digidoleiddio

Ceisai'r prosiect peilota hwn archwilio'r mater bod llawer o bobl dros 50 oed yn Ynys Môn heb ymwneud â thechnoleg fodern, a'u cynorthwyo i *"ymestyn allan a chofleidio byd newydd o gysylltedd a rhyngweithio cymdeithasol"*.

Targedwyd 15 o unigolion i gymryd rhan yn y cynllun, a thrwy hyn roeddynt yn derbyn hyfforddiant un-i-un yn eu cartrefi eu hunain. Canolbwyntiai'r hyfforddiant ar dasgau ymarferol megis siopa a bancio ar-lein, yn ogystal â defnyddio rhaglenni megis Skype a Fy lechyd Ar-lein. Roedd pob un o'r 15 yn gadarnhaol ynglŷn â'r prosiect ac yn awyddus i dderbyn hyfforddiant pellach.

Yn dilyn y peilot, roedd camau pellach posibl yn cael eu trafod ar lefel leol. Y bwriad oedd i'r adroddiad a luniwyd fel rhan o'r peilot fod yn adnodd defnyddiol i gyfeirio ato wrth feddwl am wasanaethau posibl y gellid eu darparu yn y dyfodol.

Allbynnau	N
Prosiectau peilot a gynorthwywyd	1
Rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy	21
Gweithredoedd lledaenu gwybodaeth	2

Cyfanswm cost yr astudiaeth = £4,400

### Astudiaeth Treftadaeth

Nodwyd angen gan grŵp o bartïon buddiant yn ymwneud â archwilio ffyrdd arloesol i ddehongli hanes yr ardal er mwyn creu cyfleoedd twristiaeth trwy gydol y flwyddyn i safleoedd treftadaeth. O ganlyniad, cynhaliwyd astudiaeth ddwyieithog a archwiliai'r cysylltiadau rhwng twristiaid / trigolion lleol a'r dreftadaeth a gyflwynir mewn cyrchfannau, cymhellion i ymweld ag atyniadau, a phrofiad ymwelwyr. Drwy'r prosiect, hyfforddwyd pedwar o wirfoddolwyr i ganfasio sampl o ymwelwyr a thrigolion lleol a aeth i Wyl a Sioe Ceir Clasurold Cemaes. Dadansoddwyd y gwaith ymchwil ansoddol a meintiol a wnaed a lluniwyd adroddiad ystadegol manwl a oedd yn cynnwys nifer o argymhellion.

Yn ôl y gwaith ymchwil, yn gyffredinol, roedd y sawl a ymwelai ag atyniadau yn rhesymol fodlon â'r hyn a gynigwyd ond byddent yn aros yn hirach pe byddai profiadau eraill ar gael iddynt, e.e. ailberfformio digwyddiadau hanesyddol, arddangosiadau crefftau neu sgysiau hanes. Roedd argymhellion eraill yn cynnwys cynllun teyrngarwch treftadaeth Ynys Môn, hyfforddiant marchnata drwy'r cyfryngau cymdeithasol, a digwyddiadau i wirfoddolwyr.



Cyflwynwyd canlyniadau'r astudiaeth i'r is-grŵp i'w trafod. Roedd cynllun i gyflwyno peilot i'r Grŵp Gweithredu Lleol a fyddai'n gweithio gydag atyniadau Ynys Môn ar gyd-ddarpariaeth marchnata a gwybodaeth i dwristiaid ar gyfer Ynys Môn.

Allbynnau	N
Astudiaethau dichonoldeb	1
Rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy	8
Cyfranogwyr a gynorthwywyd	143

Cyfanswm cost yr astudiaeth = £1,500

## Pentrefi Digidol

Tri phentref bach yw Bryngwran, Llanfechell a Thalwrn sydd â chryfderau yn eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ond sy'n ei chael yn anodd denu twristiaid i'w cymuned. Roedd yr ardaloedd eisiau defnyddio amrywiaeth eu lleoliadau a'u hanes i wella eu cynnyrch twristiaeth dreftadaeth. Archwiliai'r astudiaeth ddichonoldeb a'r cyfleoedd sydd i ddefnyddio technolegau 3D a realiti estynedig yn y pentrefi hyn er mwyn codi ymwybyddiaeth o synnwyr o le.

Canfu'r astudiaeth ei bod yn bwysig dod o hyd i'r atebion digidol cywir i bob ardal a chreu rhwydwaith newydd. Ymhellach, nodir nad yw technoleg newydd o'r radd flaenaf yn rhad a gallai cynaliadwyedd y technolegau hyn i'r dyfodol fod yn broblem, ac y gallai hawliau eiddo deallusol hefyd achosi problemau mewn rhai achosion.

Cynhyrchodd yr astudiaeth atebion wedi'u hymchwilio'n llawn, gan gynnwys y costau, i'r ardaloedd hyn eu defnyddio mewn ceisiadau am gyllid yn y dyfodol. Nid oedd LEADER mewn sefyllfa i gyllido'r holl brosiectau, oherwydd y gost; serch hynny, mae'r astudiaeth yn darparu gwybodaeth y gellid ei defnyddio i gefnogi ceisiadau i gronfeydd twristiaeth eraill.

Allbynnau	N
Astudiaethau dichonoldeb	1
Rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy	7

Cyfanswm cost yr astudiaeth = £4,500

## Astudiaeth Artisan

Roedd Menter Gymdeithasol Llangefni wedi dangos angen go iawn yn Ynys Môn i adfywio ei marchnadoedd traddodiadol awyr agored diffygiol, a oedd, er eu bod yn sefydlog ym misoedd yr haf, yn dawel iawn yn y gaeaf. Teimlwyd bod gan Ynys Môn gyfoeth o gynnyrch artisan ond eu bod yn cael eu cynhyrchu a'u gwerthu'n unigol yn hytrach nag mewn marchnadoedd tref traddodiadol. O'r herwydd, nod y prosiect hwn oedd darganfod y cynhyrchwyr artisan hyn a'u dwyn ynghyd er mwyn arddangos yr ynys a datblygu arddull newydd o farchnad.

Darganfuwyd cyfanswm o 23 o grefftau artisan, a gwelwyd bod wyth ohonynt o ansawdd uwch ac yn awyddus i ddatblygu eu busnesau. O'r rhain, crëwyd rhwydwaith newydd, sef 'Môn Made'. Cynhaliwyd gweithgaredd peilot hefyd i arddangos mewn digwyddiad yn Llangefni.

Roedd y prosiect yn dystiolaeth o'r rhagdybiaeth bod cynhyrchwyr artisan yn gweithio mewn seilos, ac yn dangos bod angen datblygu sgiliau'r crefftwyr hyn mewn perthynas â sefydlu a/neu dyfu eu busnes. Lledaenwyd yr astudiaeth i bartneriaid eraill a'r bwriad oedd ei ddatblygu ymhellach i fod yn beilot gan swyddog Thema 2 ym Menter Môn er mwyn datblygu eu galluoedd yn unigol fel grŵp o fusnesau.

Allbynnau	N
Astudiaethau dichonoldeb	1
Rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy	42
Rhwydweithiau a sefydlwyd	1
Cyfranogwyr a gynorthwywyd	7

Cyfanswm cost yr astudiaeth = £2,550

## Pecynnau Antur Cymru

Yn dilyn syniad cychwynol a ddeilliodd o'r Strategaeth Datblygu Lleol, daeth grŵp o bartïon buddiant ynghyd er mwyn trafod potensial creu cyfleoedd twristiaeth gydol y flwyddyn drwy ddefnyddio adnoddau naturiol heb eu cyffwrdd. Roedd y prosiect yn ymwneud ag archwilio pa mor addas fyddai creu Pecynnau Antur Cymru ar gyfer Ynys Môn, gan ddefnyddio adnoddau fel afonydd a llynnoedd a chanolbwyntio ar greu cyswllt rhwng y Gymraeg a diwylliant a hanes Cymru, a champau dŵr awyr agored. Ymhellach, roedd y prosiect yn archwilio defnyddio gwahanol fodolau cyflenwi na fyddai'n dibynnu'n helaeth ar arian cyhoeddus, yn ogystal â chreu partneriaethau oddi mewn i'r sector twristiaeth.

Nododd yr astudiaeth 22 o lynnoedd yn Ynys Môn (20 a oedd yn eiddo preifat a dau a oedd yn eiddo i Ddŵr Cymru) a chyfleoedd i ddatblygu trafodaethau â rhai o'r perchnogion hyn er mwyn nodi p'un a oedd posibilrwydd i gynnal gweithgareddau dŵr yn yr ardaloedd hyn. Gwnaed deg o argymhellion mewn perthynas â gweithgareddau wedi'u targedu at garfannau penodol y gellid eu cynnal mewn gwahanol ardaloedd. Lledaenwyd yr astudiaeth i bartneriaid a sefydliadau eraill er mwyn datblygu prosiectau peilot i'r dyfodol.

Allbynnau	N
Astudiaethau dichonoldeb	1
Rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy	17

Cyfanswm cost yr astudiaeth = £4,800

## Mewndir Môn (Ffilmio)

Deilliodd y syniad ar gyfer y prosiect hwn o astudiaeth Pecynnau Antur Cymru ac roedd yn golygu ffilmio dwy gymuned ym mewndir Ynys Môn nad oes llawer yn ymweld â hwy. Y bwriad oedd ymchwilio i hanes ac agweddau diddorol eraill ar y gymuned ac, o hyn, “*herio’r gymuned i ymateb i’w methiannau a’i llwyddiannau ei hun*” er mwyn denu ymwelwyr ac annog twf economaidd.

Roedd y ffilmiau’n cynnwys cyfweiliadau ad hoc â chroestoriad o’r gymuned a chawsant eu ffilmio “*mewn ffordd sensitif a digrif*” gan ddefnyddio drôn i ‘ysbio’ ar gymeriadau’r gymuned. Wedi hynny, dangoswyd y ffilmiau ar YouTube, Twitter a Facebook drwy ymgyrch y cyfryngau cymdeithasol wedi’i chomisiynu a’i dylunio i herio a denu sylwadau. Diben hyn oedd ysgogi pobl i feddwl am eu cymunedau a chreu adborth a syniadau ar sut i nerthu mewndir Ynys Môn drwy ddull LEADER.

O ganlyniad i’r prosiect, daeth dau syniad posibl am brosiect peilot i’r amlwg a oedd i’w datblygu ymhellach gan y grwpiau buddiant cymunedol yn y ddwy ardal.

Allbynnau	N
Prosiectau peilot a gynorthwywyd	1
Rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy	30
Gweithredoedd lledaenu gwybodaeth	1

Cyfanswm cost yr astudiaeth = £3,307.50

## Esgyn a Disgyn

Cysylltodd Menter Môn â grŵp Treftadaeth Ynys Môn i drafod y posibilrwydd o ddatblygu teithiau ardal a fyddai’n cynnig trafndiaeth a gostyngiadau i dwristiaid a ddymunai ddysgu mwy am dreftadaeth yr ynys. Fel rhan o’r prosiect peilot, treialwyd taith ar fws a oedd yn weithredol dri diwrnod yr wythnos rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2016, yn ogystal â menter tocynnau ar y cyd rhwng busnesau sy’n seiliedig yng nghornel ogleddol yr ynys. Nid oedd tâl am ddefnyddio’r gwasanaeth yn ystod y cyfnod treialu a chynhyrchodd LEADER lenyddiaeth i hyrwyddo’r bws a’r ardaloedd. Gwnaeth 108 o gyfranogwyr gymryd rhan yn y teithiau yn ystod yr arbrawf.

Dangosodd y prosiect bod angen am y gwasanaeth hwn a bod cyfleoedd i dyfu’r cysyniad i ardal fwy. Serch hynny, teimlwyd y byddai angen mwy o amser arweiniol ar brosiectau yn y dyfodol, a sicrhau bod yr holl bartneriaid wedi ymrwmo’n llwyr ac yn dosbarthu gwybodaeth drwy’r holl gyfryngau er mwyn marchnata’r cynllun yn effeithiol.

Roedd adroddiad gwerthuso’r prosiect peilot i’w gyflwyno i grŵp arall i edrych ar y posibilrwydd o gynllun trafndiaeth gymunedol newydd ac adroddiad ynni.

Allbynnau	N
Prosiectau peilot a gynorthwywyd	1
Rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy	120
Astudiaethau dichonoldeb	1

## Mwclis Ddigidol Llangristiolus

Edrychai'r prosiect hwn am gymorth technoleg ddigidol arbenigol er mwyn ymchwilio i'r dull technolegol mwyaf priodol i lunio taflen llwybr digidol i Langristiolus. Y gobaith oedd y byddai hyn yn annog twristiaeth a rhagor o bobl ifanc i gychwyn cerdded. Nod yr astudiaeth oedd dangos bod angen i'r cynnyrch twristiaeth unigryw bach yn Ynys Môn greu 'synnwyr o le' go iawn a chofleidio technoleg newydd. Yn ogystal ag astudiaeth ddichonoldeb, lluniwyd prototeip gan y contractwr hefyd.

Dangosodd y prosiect ei bod yn bosibl gweithio gyda chymuned ar atebion digidol mewn perthynas â denu ymwelwyr i'r ardal er mwyn ysgogi twf economaidd. Serch hynny, er y gellid dod o hyd i ateb, nododd yr astudiaeth ei bod yn bosibl nad dyma'r ateb cywir am y gallai technoleg o'r fath fod yn ddrud iawn.

Gyda phrototeip yn bodoli, roedd trafodaeth ar y gweill â grŵp arall a ystyriai godi hysbysfyrddau a byrddau celf cymunedol ar lwybrau arfaethedig Mwclis. Y gobaith oedd y gallai'r prosiect gydweithio â'r grŵp hwn wrth ddefnyddio rhywfaint o'r dechnoleg dan sylw mewn ffordd wahanol.

Allbynnau	N
Prosiectau peilot a gynorthwywyd	1
Rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy	25

Cyfanswm cost yr astudiaeth = £3,600 yn cynnwys TAW

## Astudiaeth Hyfforddiant Twristiaeth

Yn sgil toriadau gan y llywodraeth a'r angen i awdurdodau lleol wneud toriadau, mae cyfle a mudiad i symud gwasanaethau anstatudol presennol o reolaeth awdurdod lleol i'r trydydd sector. Canolbwyntiodd yr astudiaeth hon ar archwilio'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant twristiaeth, gan archwilio cyfleoedd a ffyrdd arloesol a newydd o gyflawni twristiaeth, gwybodaeth a hyfforddiant yn yr ynys.

Lluniwyd adroddiad a ganfu bod lefel dda o ddealltwriaeth yn gyffredinol o'r Pwyntiau Gwybodaeth i Dwristiaid yn yr ynys ymysg rhanddeiliaid. Serch hynny, canfuwyd nad yw sefydliadau wir eisiau cymryd cyfrifoldeb am ledaenu gwybodaeth i dwristiaid ac mae'n well gan y rhan fwyaf o fusnesau farchnata eu hunain yn unig, oherwydd y gystadleuaeth yn y farchnad. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad mai'r unig ffordd ymlaen oedd i fasnach gymryd cyfrifoldeb; cyflwynwyd opsiynau ar gyfer hyn yn yr adroddiad.

Arweiniodd yr astudiaeth at brosiect peilot LEADER lle bu grŵp o fusnesau a sefydliadau cymunedol yn cydweithio ar y ffordd orau i ledaenu gwybodaeth i dwristiaid drwy fentrau marchnata ar y cyd.

Allbynnau	N
Astudiaethau dichonoldeb	1
Rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy	20
Gweithredoedd lledaenu gwybodaeth / gweithgareddau hyrwyddo a/neu farchnata'r Strategaeth Datblygu Lleol a/neu ei phrosiectau	5

Cyfanswm cost yr astudiaeth = £6,000

## DAISY

Gwelodd Linc Cymunedol Môn fwllch mewn gwasanaethau i'r gymuned o bobl fyddar a thrwm eu clyw, am nad oedd llinell ffôn benodol neu wasanaeth e-bost yn hygyrch iddynt. O'r herwydd, yn bennaf gwnaed cyswllt ar eu rhan gan berson arall. Gan ymateb i hyn, sefydlwyd prosiect peilot DAISY er mwyn cynnig hyfforddiant a gwasanaeth gwybodaeth wyneb yn wyneb i'r gymuned hon drwy ddefnyddio technoleg ddigidol.

Defnyddiodd tîm DAISY 'Skype for Businesses', sy'n cydweddu â'r systemau a ddefnyddir gan y rhan fwyaf o ddarparwyr gwasanaeth, a byddai dehonglwr yn gweithredu fel rhyngwyneb i'r unigolyn drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Roedd y cyfleuster ar gael am dri diwrnod yr wythnos am gyfnod o chwe mis. Roedd mwyafrif y sefydliadau a fu'n ymwneud â'r peilot ac yn datblygu model DAISY yn awyddus i gefnogi'r prosiect yn dilyn y peilot a'i gyflwyno ledled Cymru.

Llwyddodd y peilot i sefydlu system a ddefnyddiwyd gan y Ganolfan Arwyddo Golwg Sain i gysylltu ag awdurdodau lleol gyda'r bwriad o ddenu cyllid ar gyfer hyn fel gwasanaeth statudol o fewn eu hadrannau. Fodd bynnag, cafodd y prosiect drafferth gyda brandio a marchnata'r system, er i DAISY a'r Ganolfan Arwyddo Golwg Sain ddarparu llenyddiaeth a oedd ar gael ar ffurf copi caled ac yn electronig.

Dibynnai'r prosiect yn helaeth ar fod pobl wedi'u cynnwys yn ddigidol, ond er y darparwyd hyfforddiant, nid oedd yn ymestyn i lefel lle'r oedd pobl yn ddigon hyderus i barhau ar eu pen eu hunain. Yr oedd cydnabyddiaeth y byddai angen i gyfnod peilot hwy ganolbwyntio ar anghenion penodol yn hytrach na darparu ateb mwy cyffredinol.

Er llwyddiant dull DAISY, roedd y prosiect yn cydnabod bod sefyllfa'n parhau lle nad oedd gan y sawl sy'n drwm eu clyw unrhyw ffordd i drefnu apwyntiadau yn annibynnol a hyderus na chysylltu ag unrhyw wasanaeth yn yr awdurdod lleol heb orfod trefnu dehonglwr yn gyntaf.

<b>Allbynnau</b>	<b>N</b>
Rhwydweithiau a sefydlwyd	1
Gweithgareddau peilot	1
Gweithredoedd lledaenu gwybodaeth	2
Rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy	30
Cyfranogwyr a gynorthwywyd	180

Cyfanswm cost y prosiect peilot = £7,115.88

## Atodiad 3: Diffiniadau dangosyddion perfformiad

Dangosydd	Diffiniad
Nifer yr astudiaethau dichonoldeb	Nifer yr astudiaethau dichonoldeb penodol a gomisiynwyd neu a gynhaliwyd drwy'r rhaglen er mwyn darparu'r ymchwil gefndirol ar gyfer problem neu fater penodol a llunio gwerthusiad ysgrifenedig cynhwysfawr o'r materion, atebion amgen, costau ariannol, dadansoddiad risg manwl, ac argymhellion ar gyfer y camau nesaf.
Nifer y rhwydweithiau a sefydlwyd	Nifer y rhwydweithiau ffurfiol a grëwyd o ganlyniad uniongyrchol i raglen LEADER ac nad oeddynt yn bodoli cyn i'r rhaglen chwarae ei rhan. (Unwaith yn unig y mae modd sgorio unrhyw rwydwaith yn ystod oes y rhaglen gymeradwy.)
Nifer y swyddi a ddiogelwyd trwy brosiectau a gynorthwywyd	Mae swyddi a ddiogelwyd yn golygu lle y mae'n hysbys bod swyddi mewn perygl dros y 12 mis nesaf. Dylid sgorio swyddi fel FTE a pharhaol (gellir sgorio swydd dymhorol ar yr amod y disgwylir i'r swydd fod ar gael yn amhenodol; dylid hefyd gofnodi'r gyfran o'r flwyddyn a weithir). Dylid sgorio'r swydd ei hun, nid amcangyfrif o faint o bob a allai fod yn dal y swydd. Os nad yw'r swydd yn un amser llawn, bydd angen rhannu'r oriau pob wythnos â 30 i gael y gyfran o FTE mae'n ei chynrychioli (e.e. 0.6 FTE fyddai 18 awr yr wythnos).
Nifer y gweithgareddau peilot a gyflawnwyd /gynorthwywyd	Nifer y gweithgareddau peilot a gyflawnwyd/gynorthwywyd drwy'r gweithgareddau meithrin gallu, wedi'u rhannu fel hyn: dulliau newydd, cynhyrchion newydd, prosesau newydd a gwasanaethau newydd.
Nifer yr hybiau cymunedol	Nifer yr hybiau cymunedol newydd a ffurfiwyd o ganlyniad uniongyrchol i raglen LEADER.
Nifer y camau lledaenu gwybodaeth / gweithgareddau hyrwyddo a/neu farchnata i godi ymwybyddiaeth o'r Strategaeth Datblygu Lleol a/neu'i phrosiectau	Nifer y camau a gymerwyd gan y Grŵp Gweithredu Lleol i godi ymwybyddiaeth ac esbonio amcanion y Strategaeth Datblygu Lleol a'r gweithgareddau a gyflawnwyd drwyddi i'r boblogaeth wledig. Nifer y gweithgareddau wedi'u cynllunio a'u targedu a gyflawnwyd gan y Grŵp Gweithredu Lleol sy'n hyrwyddo'r Strategaeth Datblygu Lleol a'i phrosiectau NEU gynhyrchu a dosbarthu deunyddiau wedi'u bwriadu i farchnata a hyrwyddo'r Strategaeth a'i phrosiectau.

<b>Dangosydd</b>	<b>Diffiniad</b>
Nifer y rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy	<p>Rhanddeiliad: unrhyw grŵp neu unigolyn a all effeithio ar gyflawni amcanion y prosiect, neu y gall eu cyflawni effeithio arno. Gall y rhain fod yn bobl, grwpiau neu endidau sydd â rôl a buddiant yn amcanion prosiect a'r gwaith o'i gyflawni. Maent yn cynnwys y gymuned y mae'r prosiect neu'r rhaglen yn ceisio newid ei sefyllfa.</p> <p>Ymgysylltiad: rhanddeiliaid sy'n cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gyflawni'r prosiect ar unrhyw adeg.</p>
Nifer y cyfranogwyr a gynorthwywyd	<p>Cyfranogwyr: nifer y bobl sy'n mynd i ddigwyddiad i ledaenu gwybodaeth ac ati. Noder na ellir cyfrif nifer y bobl sy'n cael unrhyw fath o ohebiaeth gysylltiedig â lledaenu gwybodaeth (e.e. dosbarthu adroddiad cryno) fel cyfranogwyr.</p>



wavehill

social and economic research  
ymchwil cymdeithasol ac economaidd